# Ystadegau Arbrofol - Arolwg Masnach Cymru: 2018

**16 Gorffennaf 2020**
**SFR 80/2020**

Casglodd Arolwg Masnach Cymru ddata am fasnach gan fusnesau oedd wedi eu seilio yng Nghymru. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau 2018.

Mae'r rhain yn ystadegau arbrofol am fod y dull a ddefnyddir wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd, ac mae rhai materion hysbys sydd angen sylw o ran ansawdd y data, ac amlygir y rhain drwy gydol y datganiad hwn. Dyma'r rhai nodedig:

- Mae cwmpas anghyflawn yn golygu nad yw'r amcangyfrifon yn cynnwys yr holl weithgareddau masnach yng Nghymru ac **ni ddylid eu defnyddio i gyfrifo cydbwysedd masnach, na'u cymharu â'r Gwerth Ychwanegol Gros/Cynnyrch Domestig Gros cyfan.**
- Am fod yr arolwg yn wirfoddol, mae rhai samplau'n fach ac mae'r rhain yn effeithio ar fanylion a chymariaethau manwl rhwng 2017 a 2018.
- Rhoddodd rhai ymatebwyr werthoedd a amcangyfrifwyd yn eu hymatebion felly bydd y gwerthoedd a roddwyd yn amrywio o ran pa mor ddibynadwy ydynt.



**Yn 2018, amcangyfrifwyd mai gwerth cyfan y gwerthiannau gan fusnesau yng Nghymru oedd £101.3bn.**

**Amcangyfrifwyd mai gwerth cyfan y pryniannau gan fusnes-au yng Nghymru oedd £67.2bn.**

**Pwyntiau Allweddol:**

**Gwerthiannau 2018**

- Roedd 71% (£72.1bn) o werthiannau gan fusnesau yng Nghymru yn nwyddau a 29% (£29.2bn) yn wasanaethau;
- Aeth 50% o'r gwerthiannau i gwsmeriaid yng Nghymru, aeth 30% i rannau eraill o'r DU, 12% i weddill yr UE a 8% i weddill y byd.

**Pryniannau 2018**

- Roedd 79% (£53.4bn) o'r pryniannau gan fusnesau yng Nghymru yn nwyddau a 21% (£13.8bn) yn wasanaethau;
- Daeth 20% o bryniannau o Gymru, daeth 51% o rannau eraill o'r DU, 13% o weddill yr UE a 5% o weddill y byd. Nid oedd 12% o'r pryniannau wedi eu dyrannu yn ôl eu rhanbarth.

## Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn rhoi ystadegau am fasnach (gwerthiannau a phryniannau) mewn nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n cael eu dadansoddi yn ôl lleoliad, maint y busnes a'r sector. Mae'r lleoliadau'n cynnwys Cymru, gweddill y DU, gweddill yr UE a gweddill y byd.

Mae'r fethodoleg yn dal i gael ei datblygu, felly mae'r rhain yn ystadegau 'arbrofol'. Nid oedd y sampl yn cynnwys rhai sectorau penodol ac nid yw'r arolwg yn ymdrin â phryniannau uniongyrchol y defnyddiwr.

I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch yr adroddiad technegol a'r tablau data.

## Yn y datganiad hwn

| | |
|---|---|
| Gwerthiannau | 13 |
| Pryniannau | 33 |
| Y Fasnach Gyfan | 54 |
| Gwybodaeth ansawdd allweddol | 55 |

Ystadegydd: Matt Evans ~ 0300 025 2032 ~ ystadegau.masnach@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

# Arolwg Masnach Cymru: 2018

## Cynnwys

Rhestr Tablau ........................................................................................................3
Rhestr Ffigurau .......................................................................................................3
Rhestr Termau ........................................................................................................5
Crynodeb ...............................................................................................................6
1. Y Cefndir ...........................................................................................................10
2. Gwerthiannau ....................................................................................................13
    Trosolwg o'r gwerthiannau ..................................................................................14
    Gwerthiannau yng Nghymru .................................................................................20
    Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol)................22
    Gwerthiannau i weddill y DU ................................................................................26
    Allforion Rhyngwladol ..........................................................................................30
3. Pryniannau .........................................................................................................33
    Trosolwg o'r pryniannau .......................................................................................34
    Pryniannau yng Nghymru .....................................................................................40
    Pryniannau o'r tu allan i Gymru (Gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol).............42
    Pryniannau o weddill y DU ...................................................................................46
    Mewnforion Rhyngwladol .....................................................................................50
4. Y Fasnach Gyfan ..................................................................................................54
    Trosolwg o'r fasnach gyfan ...................................................................................54
5. Gwybodaeth ansawdd allweddol ............................................................................55

**Rhestr Tablau**


Tabl 1: Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl y sector busnes, 2018 (£ miliynau) .................... 29
Tabl 2: Allforion rhyngwladol fesul rhanbarth, 2018 .......................................................... 30
Tabl 3: Y cynhyrchion pennaf a allforiwyd yn rhyngwladol, 2018 (a)................................... 32
Tabl 4: Pryniannau o weddill y DU yn ôl y sector busnes, 2018 (£ miliynau) ....................... 49
Tabl 5: Mewnforion rhyngwladol fesul rhanbarth 2018........................................................ 51
Tabl 6: Y cynhyrchion pennaf a fewnforiwyd yn rhyngwladol, 2018 (a)................................ 53


**Rhestr Ffigurau**


Ffigur 1: Cyfanswm y gwerthiannau fesul cyrchfan, 2018 (a) ............................................. 14
Ffigur 2: Cyfanswm gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau fesul cyrchfan, 2018 (a) ....... 15
Ffigur 3: Cyfanswm gwerthiannau fesul cyrchfan a chyfran y busnesau, 2018 (a) .............. 16
Ffigur 4: Gwerth gwerthiannau a'r ymraniad cyfraneddol rhwng nwyddau a gwasanaethau yn ôl maint y busnes, 2018 (a) ........................................................................... 17
Ffigur 5: Cyfanswm y gwerthiannau yn ôl maint a chyrchfan y busnes, 2018 (a) ................ 18
Ffigur 6: Cyfanswm gwerth y gwerthiannau yn ôl y sector busnes, 2018 (a) ....................... 19
Ffigur 7: Gwerthiannau yng Nghymru yn ôl maint y busnes, 2018 (a) ................................. 20
Ffigur 8: Gwerthiannau yng Nghymru yn ôl y sector busnes, 2018 (a) ................................ 21
Ffigur 9: Manylion y gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol), 2018 (a)............................................................................................. 22
Ffigur 10: Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) yn ôl maint y busnes, 2018 (a)........................................................................................ 23
Ffigur 11: Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) yn ôl y sector busnes, 2018 (a)....................................................................................... 24
Ffigur 12: Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) fesul cyrchfan a sector busnes, 2018 (a) ........................................................................ 25
Ffigur 13: Gwerthiannau i weddill y DU, 2018 (a)............................................................... 26
Ffigur 14: Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl maint y busnes, 2018 (a) .............................. 27
Ffigur 15: Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl y wlad a maint y busnes, 2018 (a)................. 28
Ffigur 16: Y 5 prif gyrchfan allforio rhyngwladol yn ôl gwerth y gwerthiannau, 2018 (a) ...... 31
Ffigur 17: Cyfanswm y pryniannau fesul tarddle, 2018 (a)................................................. 34
Ffigur 18: Cyfanswm y pryniannau yn ôl eu tarddle ac wedi eu rhannu'n nwyddau a gwasanaethau, 2018 (a)........................................................................................... 35
Ffigur 19: Cyfanswm y pryniannau fesul tarddle, a'r gyfran o fusnesau, 2018 (a) ............... 36

Ffigur 20: Gwerth y pryniannau a’r ymraniad cyfraneddol rhwng nwyddau a gwasanaethau yn ôl maint y busnes 2018 (a) ........................................................................37
Ffigur 21: Cyfanswm y pryniannau yn ôl maint y busnes a’r tarddle, 2018 (a).....................38
Ffigur 22: Gwerth y cyfanswm pryniannau yn ôl y sector busnes, 2018 (a) .........................39
Ffigur 23: Pryniannau yng Nghymru yn ôl maint y busnes, 2018 (a)...................................40
Ffigur 24: Pryniannau yng Nghymru yn ôl y sector busnes, 2018 (a)..................................41
Ffigur 25: Manylion y pryniannau o’r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) yn ôl eu tarddle, 2018 (a) ..................................................................42
Ffigur 26: Pryniannau o’r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol), 2018 (a)..........................................................................................................................43
Ffigur 27: Pryniannau o’r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) fesul sector busnes, 2018 (a)..............................................................................................44
Ffigur 28: Pryniannau o’r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) fesul tarddle a sector busnes, 2018 (a)................................................................................45
Ffigur 29: Pryniannau o weddill y DU, 2018 (a)....................................................................46
Ffigur 30: Pryniannau o weddill y DU yn ôl maint y busnes, 2018 (a) ..................................47
Ffigur 31: Pryniannau o weddill y DU yn ôl y wlad a maint y busnes, 2018 (a)....................48
Ffigur 32: Y pum tarddle mewnforio pennaf yn ôl gwerth y pryniant, 2018 (a) .....................52
Ffigur 33: Y fasnach gyfan fesul marchnad, 2018 (a) ..........................................................54

**Rhestr Termau**

| Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Allforion | Gwerthiannau i gyrchfannau y tu allan i'r DU. |
| Busnesau bach | Busnesau gyda 3-49 o weithwyr cyflogedig. |
| Busnesau canolig | Busnesau gyda 50-249 o weithwyr cyflogedig yn y DU. |
| Busnesau mawr | Busnesau gyda 250 neu fwy o weithwyr cyflogedig yn y DU. |
| Gweddill y byd (ROW) | Gwledydd nad ydynt yn yr Undeb Ewropeaidd. |
| Gweddill y DU (RUK) | Y Deyrnas Unedig gyfan heblaw Cymru. |
| Gweddill yr UE (REU) | Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (heb gynnwys y Deyrnas Unedig). |
| Gwerthiannau | Gwerthiant unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan fusnes i gwsmer, gan gynnwys is-gontractio gwasanaethau, darparu nwyddau neu wasanaethau i rannau eraill o fusnes yr ymatebwr a gwerthiannau i gwsmeriaid. |
| Heb eu dyrannu | Gwerth unrhyw werthiannau neu bryniannau nad oedd hi'n bosibl eu dyrannu neu roi manylion pellach amdanynt. |
| Masnach gyfan | Gwerth y gwerthiannau + pryniannau. |
| Mewnforion | Pryniannau'n tarddu o wledydd y tu allan i'r DU. |
| Pryniannau | Pryniant nwyddau neu wasanaethau gan fusnes, gan gynnwys is-gontractio gwasanaethau, pryniant nwyddau neu wasanaethau o rannau eraill o fusnes yr ymatebwr a phryniannau gan gyflenwyr. |

## Crynodeb

### Y Cefndir

- Roedd Arolwg Masnach Cymru: 2018 (TSW) yn arolwg ar-lein, oedd yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan fusnesau oedd â gweithrediadau yng Nghymru er mwyn mesur llifoedd masnach (yn nhermau gwerthiannau a phryniannau nwyddau a gwasanaethau) i Gymru ac o Gymru ar gyfer y blynyddoedd 2017 a 2018. Cynhaliwyd y gwaith maes o fis Tachwedd 2019 hyd fis Chwefror 2020 a chafodd gyfradd ymateb o 13% (1,061 o ymatebion o 7,964).
- Mae'r data a'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau 2018, er bod canlyniadau 2017 ar gael o'r tablau data.
- Mae'r rhain yn ystadegau arbrofol, am fod yr amcangyfrifon a gyflwynir yn deillio o fethodoleg newydd sy'n dal i fod ar gam datblygu a gallai fod â phroblemau o ran ansawdd y data. Dim ond gwerthoedd wedi'u hamcangyfrif a roddwyd gan rai ymatebwyr yn eu hatebion felly bydd rhai o'r gwerthoedd a ddarperir yn fwy dibynadwy nag eraill.
- Cafodd y sectorau diwydiannol dilynol eu heithrio o'r sampl: gweinyddiaeth gyhoeddus; amddiffyniad; gwasanaethau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol; gweithgareddau cartrefi fel cyflogwyr a sefydliadau alldiriogaethol. Roedd y busnesau canlynol oedd â statws cyfreithiol penodol wedi eu heithrio hefyd o'r sampl: sefydliadau awdurdod lleol; llywodraeth ganolog; y mwyafrif o gyrff nid-er-elw, er bod prifysgolion wedi eu cynnwys. Roedd ychydig o eithriadau eraill, yn cynnwys rhai gweithgareddau ariannol, rhai gweithgareddau teithio a thwristiaeth a gweithgareddau gwasanaeth personol. I gael rhestr fanwl o eithriadau, cyfeiriwch at yr Adroddiad Technegol (Atodiad A).
- O fewn y dadansoddiad mae nifer o sefyllfaoedd lle tynnir sylw at ddata am werthiannau neu bryniannau sydd 'heb eu dyrannu', lle na allai'r ymatebwr neilltuo'r data i gyrchfan penodol. Efallai bod hyn yn golygu bod y ffigurau cyffredinol wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel.
- Er mwyn bod yn eglur, cymharwyd canfyddiadau lefel uchel Arolwg Masnach Cymru â'r amcangyfrifon presennol am fasnach ryngwladol er mwyn dangos graddfa'r gwahaniaethau a welwyd a'r rhesymau tebygol amdanynt.

### Gwerthiannau 2018

- Amcangyfrifwyd mai gwerth cyfan y gwerthiannau o fusnesau yng Nghymru oedd £101.3bn.
- Gwnaed 50% (£50.6bn) o werthiannau i gwsmeriaid yng Nghymru, 30% (£30.1bn) i weddill y DU, 12% (£11.7bn) i weddill yr UE ac 8% (£7.8bn) i weddill y byd.
- Cafodd 87% o fusnesau yng Nghymru werthiannau i gwsmeriaid yng Nghymru, 48% i weddill y DU, 17% i weddill yr UE ac 12% i weddill y byd.

*Gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau*

- Roedd 71% (£72.1bn) o’r gwerthiannau gan fusnesau yng Nghymru’n nwyddau a 29% (£29.2bn) yn wasanaethau.
- Gwnaethpwyd 40% (£28.9bn) o’r gwerthiannau nwyddau i gwsmeriaid yng Nghymru, 33% (£24.1bn) i weddill y DU, 16% (£11.3bn) i weddill yr UE a 10% (£7.2bn) i weddill y byd.
- Ar y llaw arall, roedd gwerthiant gwasanaethau wedi eu crynhoi fwy yng Nghymru. Gwnaethpwyd 74% (£21.7bn) o werthiannau gwasanaethau i gwsmeriaid yng Nghymru, 21% (£6.1bn) i weddill y DU, 2% (£0.5bn) i weddill yr UE a 2% (£0.6bn) i weddill y byd.

*Gwerthiannau yn ôl maint y busnes*

- Roedd busnesau mawr yn cyfrif am 55% (£55.3bn) o werthiannau, roedd busnesau bach yn cyfrif am 26% (£26.7bn) o werthiannau ac roedd busnesau canolig yn cyfrif am 19% (£19.2bn).
- Roedd mwyafrif mawr o’r gwerthiannau gan fusnesau canolig a mawr yn nwyddau (72% a 81% yn y drefn honno) ac roedd 51% o’r gwerthiannau gan fusnesau bach yn nwyddau.
- Gwerthodd y busnesau bach 61% (£16.3bn) o’u nwyddau a’u gwasanaethau i gwsmeriaid yng Nghymru, a gwerthodd y busnesau mawr 49% (£27.2bn). Gwerthodd y busnesau canolig ychydig bach llai i gwsmeriaid yng Nghymru, gyda’r rhain yn cyfrif am 37% (£7.0bn) o’u gwerthiannau, a chyfran ychydig bach mwy i weddill y DU (38%; £7.3bn).

*Gwerthiannau yn ôl y sector*

- Roedd *Gweithgynhyrchu* yn cyfrif am 34% (£34.5bn) o’r holl werthiannau, ac yn dilyn hynny roedd *Masnach, llety a chludiant* yn cyfrif am 31% (£31.4bn). Roedd *Busnes a gwasanaethau eraill* yn cyfrif am 19% (£19.7bn) o’r holl werthiannau, tra bo 9% (£8.6bn) wedi dod o’r sector *Diwydiannau cynradd a chyfleustodau* a 7% (£7.1bn) o’r sector *Adeiladu*.

*Gwerthiannau i’r DU*

- Roedd y gwerthiannau i weddill y DU yn cyfrif am 30% (£30.1bn) o’r holl werthiannau.
- Roedd 82% (£24.6bn) o’r gwerthiannau hyn wedi eu gwneud i Loegr, 8% i’r Alban (£2.4bn) a 2% (£0.5bn) i Ogledd Iwerddon.

*Allforion rhyngwladol*

- Roedd allforion o fusnesau yng Nghymru’n cyfrif am 19% (£19.6bn) o’r holl werthiannau.
- Roedd 60% o werth yr allforion i weddill yr UE a 40% i weddill y byd.
- Ffrainc oedd ar frig y cyrchfannau allforio ac roedd yn cyfrif am 22% (£4.3bn) o werth cyfan yr allforion, wedi ei ddilyn gan Tsieina oedd yn cyfrif am 10% (£1.9bn), yr Iseldiroedd am 10% (£1.9bn), yr Almaen am 9% (£1.7bn) ac UDA am 8% (£1.6bn).
- *Nwyddau eraill wedi gweithgynhyrchu* oedd y categori cynnyrch allforio gyda’r gwerth uchaf, ac roedd yn cyfrif am 24% (£4.7bn) o’r allforion cyfan. *Cynhyrchion metel wedi ffabrigo* oedd yr ail

fwyaf, yn cyfrif am 20% (£4.0bn) ac yn dilyn hynny roedd *Peiriannau ac offer* oedd yn cyfrif am 16% (£3.1bn).

**Pryniannau 2018**

- Amcangyfrifwyd mai gwerth cyfan y pryniannau gan fusnesau yng Nghymru oedd £67.2bn.
- Daeth 51% (£34.3bn) o werth y pryniannau gan fusnesau yng Nghymru o weddill y DU, 20% (£13.2bn) o Gymru, 13% (£8.6bn) o weddill yr UE a 5% (£3.3bn) o weddill y byd.
- Gwnaeth 81% o fusnesau yng Nghymru bryniannau o Gymru, 67% o weddill y DU, 22% o weddill yr UE a 10% o weddill y byd.

***Pryniannau nwyddau a gwasanaethau***

- Roedd 79% (£53.4bn) o bryniannau gan fusnesau yng Nghymru'n nwyddau a 21% (£13.8bn) yn wasanaethau.
- Roedd 54% (£29.0bn) o nwyddau a brynwyd gan fusnesau yng Nghymru o weddill y DU, 15% (£8.1bn) o Gymru, 15% (£7.9bn) o weddill yr UE a 6% (£3.0bn) o weddill y byd.
- Roedd y gwahaniaeth rhwng Cymru a gweddill y DU hyd yn oed yn fwy o ran y gwasanaethau, gyda 38% (£5.3bn) o wasanaethau wedi eu prynu gan fusnesau yng Nghymru o weddill y DU, 37% (£5.1bn) o Gymru, yna 5% (£0.7bn) o weddill yr UE a 2% (£0.3bn) o weddill y byd.

***Pryniannau yn ôl maint y busnes***

- Gwnaed 60% (£40.0bn) o'r holl bryniannau gan fusnesau mawr, gwnaed 22% (£15.1bn) gan fusnesau bach a gwnaed 18% (£12.1bn) gan fusnesau canolig.
- Prynodd y busnesau i gyd fwy o nwyddau na gwasanaethau: roedd 81% o bryniannau busnesau mawr yn nwyddau, 74% mewn busnesau canolig a 79% mewn busnesau bach.
- Roedd mwyafrif yr holl bryniannau ar draws yr holl fandiau maint yn bryniannau o weddill y DU – roedd y rhain yn cyfrif am 58% (£23.3bn) o bryniannau busnesau mawr, 42% (£6.3bn) o bryniannau busnesau bach, a 39% (£4.7bn) o bryniannau busnesau canolig.

***Pryniannau yn ôl y sector***

- Gwnaed 42% *(*£28.2bn) o'r holl bryniannau gan y *sector Gweithgynhyrchu,* ac yn dilyn hynny 27% (£18.3bn) gan *Fasnach, llety a chludiant,* 11% (£7.2bn) gan *Fusnes a gwasanaethau eraill,* 12% (£8.0bn) gan *Adeiladu* a 8% (£5.5bn) gan y sector *Diwydiannau cynradd a chyfleustodau.*

***Gweddill Pryniannau'r DU***

- Roedd pryniannau o weddill y DU yn cyfrif am 51% (£34.3bn) o'r pryniannau cyfan.
- Roedd y mwyafrif llethol o'r pryniannau hyn yn dod o Loegr: gwnaed 85% (£29.1bn) o'r pryniannau o Loegr; 11% (£3.7bn) o'r Alban a 2% (£0.6bn) o Ogledd Iwerddon.

***Mewnforion rhyngwladol***

- Roedd mewnforion i fusnesau yng Nghymru'n cyfrif am 18% (£11.9bn) o'r holl bryniannau.
- Roedd 72% (£8.6bn) o werth y mewnforion o weddill yr UE a 28% (£3.3bn) o weddill y byd.
- Daeth y mwyafrif o'r mewnforion o'r Almaen (15%; £1.7bn), ac yn dilyn hynny Wlad Belg (8%; £1.0bn), Tsieina (6%; £0.8bn); yr Iseldiroedd (6%, £0.7bn) ac UDA (5% (£0.6bn).
- *Nwyddau eraill wedi gweithgynhyrchu* oedd y categori o gynhyrchion mewnforio gyda'r gwerth uchaf, gan gyfrif am 12% (£1.5bn) o'r holl fewnforion. Yr ail uchaf oedd *Pren wedi'i weithgynhyrchu a chynhyrchion pren a chorc* (12%; £1.4bn); ac yn dilyn hynny *Beiriannau ac offer* (7%; £0.8bn).

**Gwerth Cyfan y Masnachu**

- Gwerth cyfan y masnachu (gwerthiannau a phryniannau) i fusnesau yng Nghymru oedd £168.4bn.
- I roi trosolwg o bwysigrwydd cymharol y marchnadoedd eang, roedd 76% (£128.2bn) o'r fasnach gyfan o fewn y DU, wedi ei rannu bron yn gyfartal rhwng gweddill y DU (38%; £64.5bn), a Chymru (38%; £63.8bn); roedd 12% (£20.3bn) gyda gweddill yr UE a 7% (£11.1bn) gyda gweddill y byd.

# 1. Y Cefndir

1.1 Roedd Polisi Masnach: Materion Cymru (2018) Llywodraeth Cymru yn galw am well tystiolaeth i danategu'r penderfyniadau am bolisi masnach ac roedd yn amlygu bylchau yn y data masnach i Gymru, yn ogystal â'r problemau methodolegol allai godi, a ganfuwyd gyda'r ffynonellau data cyfredol[1]. Mae llawer o ddata cyfredol Cymru am fasnach ryngwladol mewn nwyddau yn amcangyfrifon wedi eu modelu sydd wedi eu seilio ar ffigurau cyflogaeth dosranedig y Deyrnas Unedig, yn hytrach na chasgliadau data uniongyrchol. Mae hyn yn golygu na fydd y data i Gymru'n adlewyrchu'n gywir o bosib beth yw dibyniaeth unedau busnes Cymru ar farchnadoedd allforio penodol.

1.2 Nid oes ffynhonnell ddata swyddogol ar gyfer y fasnach o fewn y DU, er y credid bod gwerth masnach Cymru gyda gweddill y DU nifer o weithiau'n fwy na gwerth ei masnach ryngwladol.

1.3 Rhedwyd Arolwg Masnach Cymru: 2018 (AMC) fel peilot yn 2019 gyda'r nod o gasglu gwybodaeth gadarn yn uniongyrchol gan fusnesau am lifoedd masnach i mewn ac allan o Gymru ar gyfer y blynyddoedd 2017 a 2018.

1.4 Cafodd IFF Research ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r arolwg peilot, ei ddadansoddi ac adrodd ar ei ganlyniadau. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad newydd hwnnw.

1.5 Cafodd AMC 2018 gyfradd ymateb gyffredinol o 13% (1,061 o ymatebion o 7,964[2]). Mae'r dadansoddiad yn y datganiad hwn yn defnyddio data'r arolwg gan y 1,054 o ymatebwyr a gwblhaodd yr adran *gwerthiannau* a'r 964 o ymatebwyr a gwblhaodd yr adran *pryniannau*.

### Ystadegau Arbrofol

1.6 Mae'r data a'r dadansoddiad a gyflwynir yn y datganiad cychwynnol hwn wedi eu pennu'n ystadegau arbrofol. Pwrpas hynny yw rhoi gwybod i'r defnyddwyr bod yr amcangyfrifon a gyflwynir yn deillio o fethodoleg newydd sy'n dal i gael ei datblygu ac a allai achosi problemau gydag ansawdd y data. Ond, mae'r data a'r dadansoddiad yn dal i fod o werth os yw'r defnyddwyr yn eu hystyried yng nghyd-destun yr wybodaeth allweddol o ansawdd a ddarperir.

---

[1] Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn gweinyddu'r ystadegau masnach cyfredol ar gyfer symudiad nwyddau, sy'n deillio o gofnodion mewnforio ac allforio'r tollau ar gyfer masnach nad yw o'r UE ac hefyd o'r system Intrastat ar gyfer yr UE gyfan. Nid yw data CThEM yn cynnwys masnach mewn gwasanaethau. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn gweinyddu Arolwg Blynyddol o Fasnach Ryngwladol mewn Gwasanaethau (ITIS) sy'n cynhyrchu ystadegau arbrofol ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer rhai is-sectorau y mae gwybodaeth ar gael am gyrchfan allforion gwasanaethau a dim ond yn ddiweddar y mae ystadegau arbrofol wedi eu cyhoeddi i Gymru am fewnforion gwasanaethau.

[2] Tynnwyd cyfanswm o 36 busnes o'r sampl cyfan posibl o 8,000 er mwyn cyfrifo cyfradd ymateb AMC (dychwelwyd llythyrau'r busnesau hyn at IFF ac nid oedd modd canfod manylion eraill ar eu cyfer). I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch yr Adroddiad Technegol os gwelwch yn dda.

1.7 Cyhoeddir ystadegau arbrofol er mwyn cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid yn eu datblygiad, gyda'r bwriad o wella eu hansawdd dros amser. Bydd yr amcangyfrifon hyn yn parhau'n arbrofol tra bo gwaith datblygu'n parhau i wella eu cwmpas a'u hansawdd.

1.8 Dyma rai o'r cyfyngiadau sydd wedi arwain at alw'r ystadegau hyn yn arbrofol;

- cwmpas anghyflawn o fusnesau, sectorau a masnach gyfan Cymru sy'n golygu nad yw'r amcangyfrifon yn cynnwys yr holl weithgarwch masnach yng Nghymru ac ni ddylid eu defnyddio i gyfrifo cydbwysedd masnach. Er enghraifft, dim ond pryniannau busnes sy'n cael eu cynnwys, felly mae'r pryniannau uniongyrchol i'r defnyddiwr ar goll. Mae hyn yn golygu nad oes gwybodaeth wedi'i chasglu am wariant y defnyddiwr dramor (mewnforion twristiaeth) na gwariant y defnyddiwr mewn rhannau eraill o'r DU, ond mae gwybodaeth wedi'i chasglu am wariant twristiaid sy'n prynu o fusnesau yng Nghymru;
- roedd yr arolwg yn wirfoddol ac mae hynny wedi arwain at samplau o faint bychan wrth wneud rhywfaint o'r gwaith manylu. Mae maint y seiliau wedi ei nodi'n glir o dan y ffigurau a'r tablau. Mae hyn wedi effeithio'n arbennig ar amcangyfrifon y fasnach yn y sector *Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau* a'r sector *Adeiladu*;
- mae'r adborth yn awgrymu bod rhai busnesau wedi ei chael hi'n anodd dyrannu pa werthiannau i gwsmeriaid sydd wedi eu seilio mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd hyn wedi effeithio'n arbennig ar y sector manwerthu a busnesau sy'n agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr;
- gofynnwyd i ymatebwyr ddyrannu'r fasnach ar sail eu partner uniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi, nid ffynhonnell wreiddiol na chyrchfan terfynol y pryniant neu'r gwerthiant. Mae'n debyg felly y gallai symudiad nwyddau drwy gadwyni cyflenwi yn y DU guddio tarddle rhyngwladol neu gyrchfan terfynol yng nghanlyniadau AMC, a allai fod o arwyddocâd arbennig i'r sector manwerthu sy'n defnyddio canolfannau dosbarthu yn y DU;
- nid yw'r dull newydd a ddefnyddir wedi ei ddatblygu'n llawn eto a gallai newid wrth i'r amcangyfrifon gael eu profi i weld pa mor gyfnewidiol ydynt, ac wrth i ddulliau o wella eu hansawdd ymhellach gael eu harchwilio;
- mae'r cymariaethau rhwng 2018 a 2017 wedi eu cyflwyno ar y lefelau uchaf yn unig, am fod y sampl wedi ei dynnu o fersiwn 2018 yr IDBR, felly ni ellir dibynnu ar gymariaethau mwy gronynnog. Ond, gellir canfod data 2017 yn y tablau data cysylltiedig sydd wedi eu cyhoeddi ar-lein.

Gellir gweld rhagor o fanylion am gyfyngiadau'r data yn yr adran Gwybodaeth Ansawdd Allweddol isod, ac yn yr Adroddiad Technegol.

1.9 Mae'r data yn y datganiad hwn wedi cael eu talgrynnu, felly mae'n bosibl y bydd anghysondebau talgrynnu bach yn bodoli.

1.10 Dros y misoedd nesaf, rydym yn bwriadu datblygu’r amcangyfrifon hyn ymhellach drwy ddod â data i mewn o arolygon eraill a fydd yn caniatáu i ni wella cwmpas ac ansawdd amcangyfrifon AMC. Byddwn yn ceisio adborth am y cynlluniau hyn ac am ganlyniadau’r rownd gyntaf o ganlyniadau AMC gan ddefnyddwyr a phobl eraill sy’n cynhyrchu ystadegau masnach. Gallwch anfon adborth at ystadegau.masnach@llyw.cymru.

1.11 Mae’r data a ddarperir yn y datganiad hwn yn ategu’r ystadegau masnach presennol: mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn cynhyrchu ystadegau masnach ar gyfer nwyddau gan ddefnyddio data gweinyddol, ac mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynhyrchu ystadegau masnach ar gyfer gwasanaethau gan ddefnyddio data arolygon. Mae trafodaeth am gymaroldeb a chydlyniaeth yr ystadegau hyn i’w cael yn y datganiad hwn. Er mwyn bod yn agored ac eglur, mae canfyddiadau lefel uchel AMC wedi cael eu cymharu hefyd gydag amcangyfrifon presennol masnach ryngwladol er mwyn dangos graddfa’r gwahaniaethau a welir, a’r rhesymau tebygol amdanynt (Atodiad A).

## 2. Gwerthiannau

2.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau AMC mewn perthynas â gwerthiannau ac allforion 2018, gyda chyfeiriadau lefel uchel at newidiadau ers 2017. Mae'n cynnwys trosolwg o'r gwerthiannau, wedi'i ddilyn gan fanylion:

- Gwerthiannau yng Nghymru
- Gwerthiannau tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol)
    - Gwerthiannau i weddill y DU
    - Allforion rhyngwladol
        - Allforion i'r UE
        - Allforion tu allan i'r UE

2.2 Gofynnwyd i fusnesau oedd yn ymateb i AMC ddweud a oeddent wedi gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau ym mlynyddoedd calendr 2017 a 2018, a darparu gwerth cyfan y gwerthiannau hyn ymhob blwyddyn. Yna gofynnwyd iddynt roi manylion eu gwerthiannau nwyddau a/neu wasanaethau fesul cyrchfan bras. Os oedd unrhyw rai o'u gwerthiannau nwyddau neu wasanaethau i weddill y DU, gofynnwyd i fusnesau enwi pa wledydd o'r DU (Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon) yr oeddent wedi gwerthu iddynt, a gwerth y gwerthiannau i bob gwlad.

2.3 Gofynnwyd i unrhyw fusnesau oedd yn allforio nwyddau neu wasanaethau y tu allan i'r DU am y pum prif nwydd neu wasanaeth a allforiwyd ganddynt ymhob blwyddyn, ac yn dilyn hynny werth pob nwydd neu wasanaeth yn fras. Yn olaf, gofynnwyd i fusnesau oedd yn allforio nwyddau neu wasanaethau y tu allan i'r DU enwi'r pum prif wlad gyrchfan ar gyfer eu hallforion o nwyddau neu wasanaethau, ac yn dilyn hynny werth y gwerthiannau'n fras.


**Trosolwg o’r gwerthiannau**

2.4 Amcangyfrifwyd mai gwerth cyfan y gwerthiannau o Gymru yn 2018 oedd £101.3bn, sef cynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol (£95.0bn). Yn 2018 roedd nwyddau’n cyfrif am 71% (£72.1bn) o’r cyfanswm gwerthiannau, ac roedd gwasanaethau’n cyfrif am 29% (£29.2bn), [Ffugir 1 a Ffigur].

*Gwerthiant nwyddau a gwasanaethau yn ôl y cyrchfan*

2.5 Gwnaethpwyd hanner yr holl werthiannau i gwsmeriaid yng Nghymru, gyda dim ond ychydig llai na thraean i weddill y DU. Yn 2018, gwnaethpwyd 50% (£50.6bn) o’r gwerthiannau cyfan gan fusnesau yng Nghymru o fewn Cymru, aeth 30% (£30.1bn) i weddill y DU, aeth 12% (£11.7bn) i weddill yr UE ac aeth 8% (£7.8bn) i weddill y byd. Roedd gwerthiannau na ddyrannwyd yn cyfrif am 1% (£1.0bn)[3] [Ffigur 1].

**Ffigur 1: Cyfanswm y gwerthiannau fesul cyrchfan, 2018 (a)**




(a) Busnesau’n gwneud gwerthiannau yn 2018 (1,003).


Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

---

[3] Mae trosiant heb ei ddyrannu’n bodoli lle gwnaeth busnesau werthiannau ond ni allent eu dyrannu i gyrchfan penodol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu yn yr adran Gwybodaeth Ansawdd Allweddol yn y datganiad hwn.

2.6 Gwnaethpwyd y mwyafrif o’r gwerthiannau gwasanaethau o fewn y DU, gyda bron i dri chwarter (£21.7bn) y gwerthiannau gwasanaethau yng Nghymru, ac ychydig dros bumed rhan o’r gwerthiannau gwasanaethau yn mynd i fannau eraill yn y DU. Roedd y gwerthiannau nwyddau’n dangos mwy o amrywiaeth o ran cyrchfannau; gwnaethpwyd 40% (£28.9bn) yng Nghymru, 33% (£24.1bn) i weddill y DU, 16% (£11.3bn) i weddill yr UE ac aeth 10% (£7.2bn) i weddill y byd [Ffigur 2].

**Ffigur 2: Cyfanswm gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau fesul cyrchfan, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau’n gwneud gwerthiannau yn 2018. Gwerthiannau nwyddau (541), Gwerthiannau gwasanaethau (621).

*Gwerthiannau fesul cyrchfan, a chyfran y busnesau*

2.7 Gwnaeth y mwyafrif llethol o fusnesau yng Nghymru werthiannau yng Nghymru, gydag ychydig yn llai na'u hanner yn gwneud gwerthiannau i weddill y DU yn 2018. Allforiodd cyfran lawer llai o fusnesau gynhyrchion yn rhyngwladol, gyda 17% yn allforio i weddill yr UE a 12% yn allforio y tu hwnt i'r UE [Ffigur 3].

**Ffigur 3: Cyfanswm gwerthiannau fesul cyrchfan a chyfran y busnesau, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud gwerthiannau yn 2018 (1,003)

*Gwerthiannau (nwyddau a gwasanaethau) yn ôl maint y busnes*

2.8 Yn 2018, daeth mwy na hanner yr holl werthiannau o fusnesau mawr[4] (£55.3bn), ychydig dros chwarter yr holl werthiannau o fusnesau bach (£26.7bn) a bron i bumed rhan ohonynt o fusnesau canolig (£19.2bn). Yn y bandiau maint canolig a mawr roedd y mwyafrif o'u gwerthiannau yn 2018 yn nwyddau, ac roedd y rheiny'n cyfrif am 81% o'r gwerthiannau ymysg busnesau mawr a 72% o'r gwerthiannau ymysg busnesau o faint canolig. Roedd gwerthiannau ymysg busnesau bach wedi eu rhannu'n fwy cyfartal, gyda 51% o werthiannau'n dod o nwyddau a 49% o wasanaethau [Ffigur 4].

**Ffigur 4: Gwerth gwerthiannau a'r ymraniad cyfraneddol rhwng nwyddau a gwasanaethau yn ôl maint y busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018


(a) Busnesau gyda gwerthiannau 2018. Bach (580), Canolig (278), Mawr (145).

[4] Trwy gydol y datganiad hwn, mae dadansoddiad o faint busnesau wedi ei seilio ar faint pob busnes yn unol â gwerthoedd cyflogaeth y DU (a gasglwyd o fewn yr IDBR). Gellir canfod rhagor o wybodaeth am hyn yn yr Adroddiad Technegol.

*Gwerthiannau yn ôl maint y busnes a'r cyrchfan*

2.9 Gwnaethpwyd o leiaf tri chwarter yr holl werthiannau, ar draws yr holl fandiau maint busnesau, o fewn y DU yn 2018, gyda busnesau bach yn gwneud y gyfran fwyaf o'u gwerthiannau o fewn y DU, sef 89% (£23.8bn). Gwerthodd busnesau bach 61% (£16.3bn) o'u nwyddau a'u gwasanaethau tu mewn i Gymru, 28% (£7.5bn) i weddill y DU a 9% (£2.3bn) o'u gwerthiannau'n rhai rhyngwladol. Gwerthodd busnesau mawr 49% (£27.2bn) i gwsmeriaid yng Nghymru, 28% (£15.4bn) i weddill y DU, a 23% yn rhyngwladol (£12.7bn). Ar y llaw arall, gwerthodd busnesau canolig ychydig bach mwy i weddill y DU (38%; £7.3bn) o'i gymharu â Chymru (37%; £7.0bn), a gwnaethent 24% (£4.6bn) o'u gwerthiannau yn rhyngwladol. Gan y busnesau bach yr oedd y nifer uchaf o werthiannau heb eu dyrannu[5] [Ffigur 5].

**Ffigur 5: Cyfanswm y gwerthiannau yn ôl maint a chyrchfan y busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018


(a) Busnesau gyda gwerthiannau 2018. Bach (580), Canolig (278), Mawr (145)

[5] Mae trosiant heb ei ddyrannu i'w gael lle gwnaeth busnesau werthiannau ond ni allent eu dyrannu i gyrchfan. Mae rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu i'w chael yn yr adran gwybodaeth ansawdd allweddol yn y datganiad hwn.

*Gwerthiannau yn ôl y sector*[6]

2.10 Yn 2018, y sector *Gweithgynhyrchu* wnaeth y gwerth uchaf o werthiannau o bawb – roedd yn gyfrifol am wneud traean o'r holl werthiannau gan fusnesau yng Nghymru. Roedd *Gweithgynhyrchu* yn cyfrif am 34% (£34.5bn) o'r holl werthiannau, wedi ei ddilyn gan *Fasnach, llety a chludiant,* oedd yn cyfrif am 31% (£31.4bn). Roedd *Busnesau a gwasanaethau eraill* yn cyfrif am 19% (£19.7bn), daeth 9% (£8.6bn) o'r gwerthiannau o'r sector *Diwydiannau cynradd a chyfleustodau* a daeth 7% (£7.1bn) o'r sector *Adeiladu* [Ffigur 6].

**Ffigur 6: Cyfanswm gwerth y gwerthiannau yn ôl y sector busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau gyda gwerthiannau 2018. Gweithgynhyrchu (175), Masnach, llety a thrafnidiaeth (379), Busnes a gwasanaethau eraill (317), Sector Cynradd a Chyfleustodau (43) ac Adeiladu (89).

[6] Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y grwpiau sector a ddefnyddir drwy gydol y datganiad hwn yn yr Adroddiad Technegol cysylltiedig.


### Gwerthiannau yng Nghymru

2.11 Gwnaethpwyd tua hanner holl werthiannau 2018 yng Nghymru. Gwerth y gwerthiannau yng Nghymru yn 2018 oedd £50.6bn [Ffigur 1].

*Gwerthiannau yng Nghymru yn ôl maint y busnes*

2.12 Yn 2018, roedd 54% (£27.2bn) o'r holl werthiannau o fewn Cymru o fusnesau mawr. Roedd busnesau bach yn cyfrif am 32% (£16.3bn) o'r holl werthiannau yng Nghymru ac roedd busnesau canolig yn cyfrif am 14% (£7.0bn) [Ffigur 7].

**Ffigur 7: Gwerthiannau yng Nghymru yn ôl maint y busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018


(a) Busnesau gyda gwerthiannau yng Nghymru 2018. Bach (518), Canolig (242) a Mawr (131)

*Gwerthiannau yng Nghymru fesul sector*

2.13 Y sector *Masnach, llety a chludiant* wnaeth y nifer fwyaf o werthiannau yng Nghymru yn 2018, tra bo'r sector *Gweithgynhyrchu* wedi gwneud y nifer lleiaf. Mae hyn yn gwrthgyferbynu â'r gwerthiannau yn gyffredinol, lle'r oedd gan y sector *Gweithgynhyrchu* y gwerth uchaf o werthiannau, gan amlygu'r ffaith bod y sector hwn yn canolbwyntio fwy ar werthu i farchnadoedd y tu allan i Gymru.

2.14 Yn 2018, roedd 47% (£24.0bn) o'r holl werthiannau yng Nghymru yn y sector *Masnach, llety a chludiant.* Roedd *Busnesau a gwasanaethau eraill* yn cyfrif am 24% (£12.2bn) o'r holl werthiannau yng Nghymru yn 2018 [Ffigur 8].

**Ffigur 8: Gwerthiannau yng Nghymru yn ôl y sector busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau yn gwerthu yng Nghymru 2018. Masnach, llety a thrafnidiaeth (351), Busnes a gwasanaethau eraill (277), Sector Cynradd a Chyfleustodau (35), Adeiladu (85) a Gweithgynhyrchu (143).


**Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol)**

2.15 Yn 2018, roedd gwerthiannau y tu allan i Gymru'n cyfrif am ychydig tua hanner yr holl werthiannau, gyda gwerth o £49.7bn. Roedd y mwyafrif llethol o'r gwerthiannau hyn yn nwyddau. Roedd gwerthiannau nwyddau'n cyfrif am 86% (£42.6bn) o werthiannau y tu allan i Gymru ac roedd gwerthiannau gwasanaethau'n cyfrif am 14% (£7.2bn) [Ffigurau 1 a 2].

*Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) fesul cyrchfan*

2.16 Yn 2018, gwnaed y mwyafrif o'r gwerthiannau oedd y tu allan i Gymru i gwsmeriaid yng ngweddill y DU. Roedd bron i chwarter y gwerthiannau wedi eu gwneud i weddill yr UE a'r gweddill i weddill y byd [Ffigur 9].

**Ffigur 9: Manylion y gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol), 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018


**(a) Busnesau gyda gwerthiannau y tu alllan i Gymru (552)**

*Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) yn ôl maint y busnes*

2.17 Yn 2018, gwnaeth y busnesau mawr ychydig dros hanner eu holl werthiannau y tu allan i Gymru (56%; £28.0bn), yn dilyn hynny oedd y busnesau canolig gyda 24% (£12.0bn), a gwnaeth y busnesau bach 20% (£9.7bn) o'u holl werthiannau y tu allan i Gymru [Ffigur 10].

2.18 Ar draws yr holl fusnesau o bob band maint, aeth y mwyafrif o'r gwerthiannau oedd y tu allan i Gymru i weddill y DU. O ran y busnesau bach, aeth 77% (£7.5bn) o'u gwerthiannau oedd y tu allan i Gymru i weddill y DU, o'i gymharu â 61% (£7.3bn) gan fusnesau canolig a 55% gan fusnesau mawr (£15.4bn) [Ffigur 10].

**Ffigur 10: Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) yn ôl maint y busnes, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud gwerthiannau y tu allan i Gymru yn 2018.
Bach (316), Canolig (172) a Mawr (64).

*Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) fesul sector*

2.19 Roedd bron i ddwy ran o dair o'r gwerthiannau a wnaed y tu allan i Gymru gan fusnesau yn y sector *Gweithgynhyrchu* (64%; £31.7bn) [Ffigur 11].

**Ffigur 11: Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) yn ôl y sector busnes, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru, 2018

(a) Busnesau yn gwerthu y tu allan i Gymru yn 2018. Gweithgynhyrchu (158), Busnes a gwasanaethau eraill (185), Masnach, llety a thrafnidiaeth (148), Sector Cynradd a Chyfleustodau (26), Adeiladu (35).

2.20 Ar draws yr holl sectorau, aeth y gwerthiannau oedd y tu allan i Gymru i weddill y DU fel arfer. Roedd Gweithgynhyrchu'n cyfrif am y gwerth uchaf o werthiannau i weddill y DU, sef £15.0bn, er bod hyn yn cyfrif am ychydig llai na hanner (47%) yr holl werthiannau Gweithgynhyrchu y tu allan i Gymru. Roedd hon yn gyfran is na'r holl sectorau eraill, lle'r oedd rhwng 78% (Busnesau a gwasanaethau eraill) a 98% (Adeiladu) o'r holl werthiannau y tu allan i Gymru yn rhai i weddill y DU [Ffigur 12].

**Ffigur 12: Gwerthiannau y tu allan i Gymru (i weddill y DU ac allforion rhyngwladol) fesul cyrchfan a sector busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud gwerthiannau y tu allan i Gymru 2018. Gweithgynhyrchu (158), Busnesau a gwasanaethau eraill (185), Masnach, llety a thrafnidiaeth (148), Sector Cynradd a Chyfleustodau (26) ac Adeiladu (35).
Cafodd y gwerthiannau i weddill yr UE a gweddill y byd gan Sector Cynradd a Chyfleustodau ac Adeiladu eu hatal am fod nifer yr ymatebion yn yr arolwg yn isel.

### Gwerthiannau i weddill y DU


2.21 Roedd y gwerthiannau i weddill y DU yn cyfrif am lai na thraean o’r cyfanswm gwerthiannau o Gymru, gyda gwerth o £30.1bn yn 2018, yn gyfatebol â 30% o’r gwerthiannau cyfan.

*Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl y cyrchfan*

2.22 Roedd mwyafrif llethol y gwerthiannau i weddill y DU yn rhai i Loegr. Roedd y gwerthiannau hyn yn cyfrif am 82% (£24.6bn) o’r gwerthiannau o Gymru i weddill y DU, gyda 8% (£2.4bn) yn mynd i’r Alban a 2% (£0.5bn) i Ogledd Iwerddon.

2.23 Roedd lefel gweddol uchel o werthiannau i weddill y DU oedd heb eu dyrannu (8%; £2.5bn). Cafwyd adborth gan nifer o fusnesau oedd yn dweud eu bod wedi ei chael hi’n anodd rhoi manylion gwerthiannau’r DU yn ôl y wlad unigol, am nad oedd yr wybodaeth hon wedi’i chofnodi ar eu systemau cyfrifyddu [Ffigur 13][7].

**Ffigur 13: Gwerthiannau i weddill y DU, 2018 (a)**




**Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru, 2018**


**(a) Busnesau gyda gwerthiannau i weddill y DU (541)**

[7] Mae trosiant heb ei ddyrannu yn bodoli lle gwnaeth busnesau werthiannau i weddill y DU ond nid oeddent yn gallu eu dyrannu i Loegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol.

*Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl maint y busnes*

2.24 Yn 2018, roedd ychydig dros hanner yr holl werthiannau (51%; £15.4bn) i weddill y DU yn werthiannau gan fusnesau mawr; roedd y gweddill wedi eu rhannu bron yn gyfartal rhwng busnesau canolig a busnesau bach (£7.3bn a £7.5bn yn y drefn honno) [Ffigur 14]**Error! Reference source not found.**.

**Ffigur 14: Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl maint y busnes, 2018 (a)**




**Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru, 2018**


**(a) Busnesau gyda gwerthiannau i weddill y DU yn 2018, Bach (312), Canolig (168), Mawr (61).**

*Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl maint y busnes a'r cyrchfan*

2.25 Ar draws holl fandiau maint y busnesau, roedd y mwyafrif o'r gwerthiannau i weddill y DU yn rhai i Loegr yn 2018. Roedd y gwerthiannau i Loegr yn cyfrif am gyfran debyg o'r gwerthiannau i weddill y DU gan fusnesau bach a mawr, sef 87% a 85% yn y drefn honno, gyda chyfran lai gan fusnesau canolig ar 68%. Ond, roedd 22% o'r gwerthiannau i weddill y DU gan fusnesau maint canolig yn parhau heb eu dyrannu[8], a allai gyfrif am y gyfran is hon o werthiannau wedi'u dyrannu i Loegr [Ffigur 15].

[8] Mae trosiant heb ei ddyrannu'n bodoli lle cafodd busnesau werthiannau i weddill y DU ond ni allent eu dyrannu i Loegr, Yr Alban na Gogledd Iwerddon. Mae rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu i'w chael yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol yn y datganiad hwn.

**Ffigur 15: Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl y wlad a maint y busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru, 2018

(a) Busnesau gyda gwerthiannau i weddill y DU yn 2018. Bach (312), Canolig (168), Mawr (61).

*Gwerthiannau i weddill y DU fesul sector*

2.26 Ar draws yr holl sectorau, roedd mwyafrif gwerthiannau i weddill y DU yn werthiannau i Loegr. Cyfrannodd gwerthiannau o Loegr 82% o'r gwerthiannau i weddill y DU. Gwnaed 50% (£15.0bn) o'r gwerthiannau i weddill y DU gan y sector *Gweithgynhyrchu* [Tabl 1]. Roedd cyfran sylweddol o'r gwerthiannau i weddill y DU yn parhau heb eu dyrannu; felly, gallai'r canlyniadau hyn fod wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel[9].

**Tabl 1: Gwerthiannau i weddill y DU yn ôl y sector busnes, 2018 (£ miliynau)**

| Sector y Busnes (a) | Cyfanswm | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Heb eu dyrannu |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgynhyrchu | **14,964** | 12,844 | 1,572 | 352 | 196 |
| Busnesau a gwasanaethau eraill | **5,670** | 5,063 | 309 | 49 | 249 |
| Masnach, llety a chludiant | **5,635** | 4,416 | 400 | 115 | 704 |
| Sector Cynradd a Chyfleustodau | **1,947** | 761 | 30 | * | * |
| Adeiladu | **1,932** | 1,542 | 135 | * | * |
| **Y Cyfanswm** | **30,148** | **24,626** | **2,445** | **529** | **2,548** |

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru

(a) Busnesau gyda gwerthiannau i weddill y DU yn 2018. Gweithgynhyrchu (152), Busnesau a gwasanaethau eraill (181), Masnach, llety a chludiant (147) Sector cynradd a chyfleustodau eraill (26) ac Adeiladu (35).

* yn dangos bod ffigurau wedi eu hatal lle cafwyd cyfradd ymateb fechan yn unig.

[9] Mae trosiant heb ei ddyrannu'n bodoli lle cafodd busnesau werthiannau i weddill y DU ond ni allent eu dyrannu i Loegr, Yr Alban na Gogledd Iwerddon. Mae rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu i'w chael yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol yn y datganiad hwn.

### Allforion Rhyngwladol

2.27 Yn 2018, amcangyfrifwyd mai gwerth yr allforion rhyngwladol o Gymru oedd £19.6bn; bron i bumed rhan o'r holl werthiannau o Gymru.

2.28 Roedd nwyddau yn cyfrif am 95% (£18.5bn) o'r holl allforion rhyngwladol.

2.29 Aeth mwyafrif yr allforion rhyngwladol i'r UE. Gwerth yr allforion i weddill yr UE oedd £11.7bn, gan gyfrif am 12% o'r holl werthiannau a 60% o'r holl allforion o fusnesau yng Nghymru yn 2018. Gwerth yr allforion i weddill y byd oedd £7.8bn, gan gyfrif am 8% o'r holl werthiannau a 40% o'r holl allforion o fusnesau yng Nghymru [Ffigur 1].

2.30 Gofynnwyd i fusnesau bennu'r pum prif wlad yr oeddent yn allforio iddynt a gofynnwyd iddynt am werth y gwerthiannau i bob un o'r gwledydd hyn, er na ellid dyrannu 8% o'r gwerthiannau allforio rhyngwladol i ranbarth. **Dim ond y gwerthiannau i'r pum prif wlad y gofynnwyd amdanynt gan fusnesau, felly nid yw'r ffigurau hyn yn cyfrif am yr holl werthiannau allforio**[10]. Cyfunwyd ffigurau'r gwerthiannau yn rhanbarthau byd-eang bras. Nid oes manylion ar gael am yr ymraniad nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y gwledydd [Tabl 2].

*Allforion rhyngwladol fesul rhanbarth*

2.31 Yn 2018, aeth bron i ddwy ran o dair[11] o werth yr holl allforion rhyngwladol o Gymru i'r UE (60%; £11.7bn), gyda phumed rhan (21%; £4.2bn) yn mynd i Asia [Tabl 2].

**Tabl 2: Allforion rhyngwladol fesul rhanbarth, 2018**

| Y Rhanbarth (a) | Gwerth (£ miliynau) | % o Allforion Rhyngwladol |
|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd (ac eithrio'r DU) | 11,729 | 60% |
| Asia | 4,189 | 21% |
| Gogledd America | 1,635 | 8% |
| Gweddill Ewrop | 223 | 1% |
| Y Dwyrain Canol | 140 | 1% |
| Canol a De America | 80 | <1% |
| Affrica | 49 | <1% |
| Awstralasia | 38 | <1% |
| Heb ei ddyrannu (gweddill y byd) (b) | 1,495 | 8% |
| **Cyfanswm** | **19,578** | |

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru

(a) Busnesau gyda gwerthiannau allforio rhyngwladol 2018 (232).
(b) Mae cyfran fechan o werthiannau heb ei dyrannu i ranbarth.

---


[10] Ni roddwyd manylion unrhyw werthiannau rhyngwladol a wnaeth y busnesau i wledydd y tu allan i'w pum prif wlad, ac felly ni ellir eu cynnwys yn ffigurau'r wlad ryngwladol neu ranbarth byd-eang. Yn ogystal, efallai nad oedd rhai busnesau wedi gallu dyrannu eu hallforion rhyngwladol cyfan i wledydd penodol. Mae rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu i'w chael yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol yn y datganiad hwn.

[11] Mae'r cyfraneddau wedi eu cyfrifo o'r gwerthiannau allforio rhyngwladol cyfan (gan gynnwys gwerthiannau heb eu dyrannu)

*Allforion rhyngwladol fesul gwlad a gwerth*

2.32 Aeth ychydig dros bumed rhan o’r holl allforion rhyngwladol o Gymru i Ffrainc yn 2018 (22%; £4.3bn), roedd yr allforion hyn fwy na dwywaith gwerth yr allforion i’r ail brif gyrchfan allforio (Tsieina, £1.9bn). Roedd 18% o’r allforion rhyngwladol heb eu dyrannu fesul gwledydd[12] [Ffigur 16].

**Ffigur 16: Y 5 prif gyrchfan allforio rhyngwladol yn ôl gwerth y gwerthiannau, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru, 2018

(a) Busnesau gyda gwerthiannau allforio rhyngwladol 2018 (232).

[12] Mae trosiant heb ei ddyrannu’n bodoli lle cafodd busnesau werthiannau rhyngwladol y tu allan i’r pum prif wlad y gofynnwyd iddynt ddarparu ffigurau ar eu cyfer. Yn ogystal, efallai bod rhai busnesau heb allu dyrannu eu hallforion rhyngwladol i wledydd penodol. Mae rhagor o wybodaeth am werthiannau heb eu dyrannu i’w chael yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol yn y datganiad hwn.

*Allforion rhyngwladol fesul cynnyrch*

2.33 Yn unol â'r ffaith mai Gweithgynhyrchu yw'r sector pennaf o ran allforion rhyngwladol Cymru, *nwyddau eraill wedi gweithgynhyrchu* oedd y categori cynhyrchion allforio pennaf[13], oedd yn cyfrifo am 24% (£4.7bn) o gyfanswm allforion Cymru yn 2018 [Tabl 3].

2.34 *Cynhyrchion metel wedi ffabrigo* oedd yr ail fwyaf o'r categorïau cynhyrchion allforio rhyngwladol, gyda gwerth o £4.0bn (20%) yn 2018. *Peiriannau ac offer* oedd y trydydd mwyaf, ac roedd yn cyfrif am £3.1bn (16%) yn 2018 [Tabl 3].

**Tabl 3: Y cynhyrchion pennaf a allforiwyd yn rhyngwladol, 2018 (a)**

(£ miliynau)

| Cynnyrch | 2018 (b) |
|---|---|
| Nwyddau eraill wedi gweithgynhyrchu | **4,706** |
| Cynhyrchion metel wedi ffabrigo, heb gynnwys peiriannau ac offer ac arfau a ffrwydron rhyfel | **3,981** |
| Peiriannau ac offer heb eu dosbarthu mewn categori arall. | **3,076** |
| Offer a chyflenwadau meddygol a deintyddol | **1,442** |
| Dodrefn | **472** |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill | **400** |
| Papur a chynhyrchion papur | **226** |
| Gwasanaethau cludiant dŵr | **177** |
| Cynhyrchion rwber a phlastig | **151** |
| Pren wedi'i weithgynhyrchu a chynhyrchion pren a chorc, heblaw dodrefn; nwyddau o wellt a defnydd plethu | **92** |

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru

(a) Oherwydd cyfradd ymateb isel, mae nifer o'r cynhyrchion pennaf wedi eu heithrio o'r rhestr.
(b) Busnesau gydag allforion 2018 (232).

[13] Dewisodd yr ymatebwr y pum prif nwydd a gwasanaeth a allforiwyd yn ôl eu gwerth o restr wedi ei chodio'n barod. Mae hon i'w chael yn Atodiad F yr adroddiad technegol.

## 3. Pryniannau

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau AMC mewn perthynas â phryniannau a mewnforion ar gyfer 2018, gyda chyfeiriadau lefel uchel at newidiadau ers 2017. Mae'n cynnwys trosolwg o'r pryniannau wedi'i ddilyn gan fanylion:

- Pryniannau yng Nghymru
- Pryniannau y tu allan i Gymru (Gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol)
    - Pryniannau o weddill y DU
    - Mewnforion Rhyngwladol
        - Mewnforion o'r UE
        - Mewnforion o'r tu allan i'r UE

3.2 Gofynnwyd i fusnesau a oeddent wedi prynu nwyddau a/neu wasanaethau yn y blynyddoedd calendr 2017 a 2018 ac, os oeddent, a fyddent yn rhoi gwerth cyfan y pryniannau hyn ymhob blwyddyn. Yna gofynnwyd i fusnesau roi manylion eu pryniannau o nwyddau a/neu wasanaethau yn ôl eu tarddle bras. Ar gyfer unrhyw bryniannau nwyddau neu wasanaethau o weddill y DU, gofynnwyd i fusnesau pa wledydd o'r DU (Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon) yr oeddent wedi prynu ganddynt, a gwerth y pryniannau hyn o bob gwlad.

3.3 Yna gofynnwyd i unrhyw fusnesau oedd yn mewnforio nwyddau neu wasanaethau o'r tu allan i'r DU am y pum prif nwydd neu wasanaeth yr oeddent yn eu mewnforio ymhob blwyddyn, gan ddewis o restr oedd wedi ei chodio'n barod, ac yna werth pob un yn fras. Yn olaf, gofynnwyd i'r busnesau hyn bennu'r pum gwlad pennaf yr oedd eu mewnforion yn tarddu ohonynt ac, yn dilyn hynny, werth y pryniannau o bob gwlad yn fras.


### Trosolwg o'r pryniannau

3.4 Yn 2018, prynodd busnesau yng Nghymru nwyddau a gwasanaethau gwerth £67.2bn, sef cynnydd o 3% ar y flwyddyn flaenorol (£65.1bn). Roedd nwyddau'n cyfrif am 79% (£53.4bn) o'r pryniannau cyfan. Roedd gwasanaethau'n cyfrif am 21% (£13.8bn) o'r pryniannau cyfan, [Ffigur 17].

*Pryniannau nwyddau a gwasanaethau yn ôl y tarddle*

3.5 Roedd ychydig dros hanner yr holl bryniannau yn 2018 o weddill y DU; roedd pumed rhan o'r tu mewn i Gymru. Roedd y pryniannau o weddill y DU werth £34.3bn (51%), roedd 20% (£13.2bn) yn bryniannau yng Nghymru, roedd 13% (£8.6bn) yn bryniannau o weddill yr UE ac roedd 5% (£3.3bn) yn bryniannau o weddill y byd. Roedd pryniannau heb eu dyrannu[14] yn cyfrif am 12% (£7.8bn) [Ffigur 17].

**Ffigur 17: Cyfanswm y pryniannau fesul tarddle, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud pryniannau yn 2018 (836).

[14] Mae gwerthoedd y pryniannau heb eu dyrannu i'w cael lle'r oedd busnesau wedi gwneud pryniannau ond nid oeddent wedi gallu dyrannu'r pryniannau hynny i Gymru, gweddill y DU, gweddill yr UE neu weddill y byd. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am ffigurau heb eu dyrannu yn yr adran Gwybodaeth Ansawdd Allweddol yn y Datganiad hwn.

3.6 Roedd ychydig dros ddwy ran o dair (69%) o werth cyfan y nwyddau yn rhai a brynwyd o'r DU; gyda 15% (£8.1bn) o Gymru a 54% (£29.0bn) o weddill y DU. Roedd mwy na phumed rhan (21%) o'r nwyddau a brynwyd yn rhai rhyngwladol; daeth 15% (£7.9bn) o'r cyfanswm nwyddau a brynwyd o weddill yr UE, a 6% (£3.0bn) o weddill y byd. Prynwyd tri chwarter y gwasanaethau (76%) o'r DU, gyda 37% (£5.1bn) o Gymru a 38% (£5.3bn) o rywle arall yn y DU. Dim ond cyfran fechan (7%) o wasanaethau a brynwyd yn rhyngwladol [Ffigur 18].

**Ffigur 18: Cyfanswm y pryniannau yn ôl eu tarddle ac wedi eu rhannu'n nwyddau a gwasanaethau, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud pryniannau yn 2018. Nwyddau a brynwyd (755) a Gwasanaethau a brynwyd (538).

*Pryniannau yn ôl eu tarddle, y gyfran o fusnesau*

3.7 Er mai'r pryniannau o weddill y DU oedd â'r gwerth mwyaf, gwnaeth cyfran fwy o fusnesau bryniannau o Gymru. Gwnaeth y mwyafrif llethol o fusnesau yng Nghymru bryniannau o Gymru ei hun yn 2018, gyda dim ond ychydig dros ddwy ran o dair yn gwneud pryniannau o weddill y DU [Ffigur 19].

**Ffigur 19: Cyfanswm y pryniannau fesul tarddle, a'r gyfran o fusnesau, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) yr holl fusnesau a wnaeth bryniannau yn 2018 (836).

*Pryniannau (nwyddau a gwasanaethau) yn ôl maint y busnes*

3.8 Yn 2018, gwnaed 60% (£40.0bn) o'r holl bryniannau gan fusnesau mawr, 22% (£15.1bn) gan fusnesau bach a 18% (£12.1bn) gan fusnesau canolig. Ar draws pob un o'r meintiau busnes, roedd y mwyafrif llethol o'r pryniannau'n nwyddau [Ffigur 20].

**Ffigur 20: Gwerth y pryniannau a'r ymraniad cyfraneddol rhwng nwyddau a gwasanaethau yn ôl maint y busnes 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau gyda phryniannau 2018. Bach (491), Canolig (231) a Mawr (114).

*Pryniannau yn ôl eu tarddle a maint y busnes*

3.9 Roedd y mwyafrif o'r holl bryniannau yn 2018, ar draws yr holl fandiau maint, o weddill y DU. Roedd 78% (£11.8bn) o bryniannau busnesau bach yn bryniannau o'r DU, gyda 36% o Gymru a 42% o weddill y DU. Daeth dros hanner (58%; £23.3bn) pryniannau'r busnesau mawr o weddill y DU, o'i gymharu â 12% (£4.6bn) o'r tu mewn i Gymru a 17% (£7.0bn) yn rhyngwladol. Roedd 39% (£4.7bn) o bryniannau busnesau o faint canolig o weddill y DU, 39%, gyda'r gweddill wedi eu rhannu bron yn gyfartal rhwng pryniannau o Gymru (26%; £3.1bn) ac yn rhyngwladol (25%; £3.1bn) [Ffigur 21].

**Ffigur 21: Cyfanswm y pryniannau yn ôl maint y busnes a'r tarddle, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau gyda phryniannau 2018. Bach (491), Canolig (231), Mawr (114).

*Pryniannau yn ôl y sector*

3.10 Yn 2018 roedd gan y sector *Gweithgynhyrchu* y gwerth uchaf o'r holl bryniannau, gan gyfrif am 42% (£28.2bn) o'r cyfanswm pryniannau yn ôl y busnesau yng Nghymru. Gwnaeth y sector *Masnach, llety a chludiant* 27% (£18.3bn) o'r holl bryniannau. Gwnaeth y sector *Adeiladu* 12% (£8.0bn) o'r holl bryniannau a gwnaeth *Busnesau a gwasanaethau eraill* 11% (£7.2bn). Gwnaeth y *Sector Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau* 8% (£5.5bn) o'r pryniannau cyfan [Ffigur 22].

**Ffigur 22: Gwerth y cyfanswm pryniannau yn ôl y sector busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau gyda phryniannau 2018. Gweithgynhyrchu (151), Masnach, llety a thrafnidiaeth (318), Adeiladu (76), Busnes a gwasanaethau eraill (247), Sector Cynradd a Chyfleustodau (44).


**Pryniannau yng Nghymru**

3.11 Gwnaed pumed rhan o’r holl bryniannau yn 2018 yng Nghymru, ac amcangyfrifir mai gwerth y rhain oedd £13.2bn [Ffigur 17].

*Pryniannau yng Nghymru yn ôl maint y busnes*

3.12 Gwnaed ychydig dros ddwy ran o bump (42%; £5.5bn) o’r holl bryniannau yng Nghymru gan fusnesau bach. Roedd busnesau mawr yn cyfrif am 35% (£4.6bn) o’r holl bryniannau yng Nghymru, tra bo busnesau o faint canolig wedi gwneud 23% (£3.1bn) o’r pryniannau cyfan yng Nghymru [Ffigur 23].

**Ffigur 23: Pryniannau yng Nghymru yn ôl maint y busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018


(a) Busnesau’n gwneud pryniannau yng Nghymru yn 2018. Bach (416), Canolig (189) a Mawr (81).
*Gofal: sail o faint bach.

*Pryniannau yng Nghymru fesul sector*

3.13 Gwnaeth y sector *Masnach, llety a chludiant* y gyfran uchaf o bryniannau yng Nghymru yn 2018, sef bron i draean o'r holl bryniannau. Mae hyn yn wahanol i'r pryniannau cyffredinol lle'r oedd gan y sector *Gweithgynhyrchu* y gwerth uchaf oherwydd y nifer uwch o bryniannau y tu allan i Gymru.

3.14 Yn 2018, gwnaed 31% (£4.1bn) o'r holl bryniannau yng Nghymru gan y sector *Masnach, llety a chludiant*. Roedd *Gweithgynhyrchu* yn cyfrif am bron i chwarter yr holl bryniannau yng Nghymru (24%, £3.2bn) tra bo *Busnesau a gwasanaethau eraill* wedi gwneud ychydig dros bumed rhan o'r holl bryniannau yng Nghymru (21%, £2.7bn) [Ffigur 24].

**Ffigur 24: Pryniannau yng Nghymru yn ôl y sector busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud pryniannau yng Nghymru yn 2018. Masnach, llety a thrafnidiaeth (245), Busnes a gwasanaethau eraill (212), Gweithgynhyrchu (122), Adeiladu (70) and Sector Cynradd a Chyfleustodau (37).


**Pryniannau o’r tu allan i Gymru (Gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol)**

3.15 Yn 2018, daeth mwy na dwy ran o dair (69%; £46.2bn) o’r pryniannau cyfan o’r tu allan i Gymru. Roedd y mwyafrif llethol o’r pryniannau hyn yn nwyddau. Roedd pryniannau nwyddau’n cyfrif am 86% (£40.0bn) o’r pryniannau o’r tu allan i Gymru a’r pryniannau gwasanaethau’n cyfrif am 14% (£6.2bn).

*Pryniannau o’r tu allan i Gymru (Gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol)*

3.16 Yn 2018, daeth bron i dri chwarter (74%; £34.3bn) y pryniannau o’r tu allan i Gymru o weddill y DU, 19% (£8.6bn) o weddill yr UE a 7% (£3.3bn) o weddill y byd [Ffigur 25].

**Ffigur 25: Manylion y pryniannau o’r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) yn ôl eu tarddle, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018


(a) Busnesau gyda phryniannau y tu allan i Gymru yn 2018 (611)

*Pryniannau o'r tu allan i Gymru (Gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) yn ôl maint y busnes*

3.17 Gwnaeth y busnesau mawr 65% (£30.3bn) o'r holl bryniannau y tu allan i Gymru, tra bo'r busnesau bach yn cyfrif am 18% (£8.2bn) a'r busnesau canolig am 17% (£7.8bn) [Ffigur 17].

3.18 Ar draws yr holl fusnesau, o bob band maint, daeth y mwyafrif o'r pryniannau oedd o'r tu allan i Gymru o weddill y DU, gan gynrychioli 77% o bryniannau busnesau bach a mawr y tu allan i Gymru (£6.3bn a £23.3bn yn y drefn honno), a 61% (£4.7bn) o bryniannau busnesau canolig y tu allan i Gymru. Daeth ychydig dros chwarter (28%; £2.1bn) y pryniannau gan fusnesau canolig oedd o'r tu allan i Gymru o weddill yr UE, o'i gymharu â 18% (£5.6bn) gan fusnesau mawr a 11% (£0.9bn) gan fusnesau bach [Ffigur 26].

**Ffigur 26: Pryniannau o'r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol), 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau yn gwneud pryniannau y tu allan i Gymru yn 2018. Mawr (83), Canolig (181), Bach (347).

*Pryniannau o'r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) fesul sector*

3.19 Yn 2018, tua hanner y gwerth o bryniannau oedd o'r tu allan i Gymru gan y sector *Gweithgynhyrchu* (50%; £23.0bn), a gwnaed mwy na'u chwarter (28%; £13.2bn) gan y sector *Masnach, llety a chludiant* [Ffigur 27].

**Ffigur 27: Pryniannau o'r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) fesul sector busnes, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau a wnaeth bryniannau y tu allan i Gymru yn 2018. Gweithgynhyrchu (140), Masnach, llety a thrafnidiaeth (227), Busnes a gwasanaethau eraill (164), Sector Cynradd a Chyfleustodau (34), Adeiladu (46).

3.20 Ar draws yr holl sectorau, daeth y pryniannau o'r tu allan i Gymru'n bennaf o weddill y DU. Daeth pryniannau'r sector *Adeiladu* oedd y tu allan i Gymru o weddill y DU (£2.6bn). Roedd gan y sector *Gweithgynhyrchu* gwerth uchaf o bryniannau y tu allan i Gymru oherwydd lefelau uchel o fewnforion rhyngwladol, gyda 59% (£13.5bn) o brynianau *Gweithgynhyrchu* o'r tu allan i Gymru yn dod o weddill y DU; 31% (£7.2bn) o weddill yr UE a 10% (£2.3bn) o weddill y byd [Ffigur 28].

**Ffigur 28: Pryniannau o'r tu allan i Gymru (gweddill y DU a mewnforion rhyngwladol) fesul tarddle a sector busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud pryniannau y tu allan i Gymru yn 2018. Gweithgynhyrchu (140), Masnach, llety a thrafnidiaeth (227), Busnes a gwasanaethau eraill (164), Sector Cynradd a Chyfleustodau (34) and Adeiladu (46).
Mae pryniannau o weddill y byd ar gyfer Sector Cynradd a Chyfleustodau ac Adeiladu wedi eu hatal oherwydd ymateb isel i'r arolwg.


**Pryniannau o weddill y DU**

3.21 Roedd pryniannau o weddill y DU yn cyfrif am ychydig dros hanner y pryniannau cyfan yn 2018, gyda gwerth o £34.3bn (51% o'r pryniannau cyfan).

*Pryniannau o weddill y DU yn ôl eu tarddle*

3.22 Daeth y mwyafrif llethol o'r pryniannau oedd o weddill y DU gan fusnesau yng Nghymru o Loegr, sef 85% (£29.1bn), gyda 11% (£3.7bn) o'r Alban a 2% (£0.6bn) o Ogledd Iwerddon. Ni allai rhai busnesau amcangyfrif eu pryniannau yn y DU, gan adael 3% (£1.0bn) o'r pryniannau o'r DU yn 2018 heb eu dosrannu[15] [Ffigur 29].

**Ffigur 29: Pryniannau o weddill y DU, 2018 (a)**




**Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018**


**(a) Busnesau gyda phryniannau o weddill y DU yn 2018 (595)**

[15] Ceir gwerth mewnforio heb ei ddyrannu lle'r oedd gan fusnesau bryniannau o weddill y DU ond nid oeddent wedi gallu ei ddyrannu i Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am bryniannau heb eu dyrannu yn yr adran Gwybodaeth Ansawdd Allweddol yn y Datganiad hwn.

*Pryniannau o weddill y DU yn ôl maint y busnes*

3.23 Gwnaed mwy na dwy ran o dair (68%; £23.3bn) o bryniannau o weddill y DU gan fusnesau mawr. Mewn cymhariaeth, gwnaeth busnesau bach ychydig llai na phumed rhan (18%; £6.3bn) o'r pryniannau o weddill y DU, a gwnaeth busnesau maint canolig lai na hynny hyd yn oed, sef 14% (£4.7bn) [Ffigur 30].

**Ffigur 30: Pryniannau o weddill y DU yn ôl maint y busnes, 2018 (a)**





Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

**(a) Busnesau'n gwneud pryniannau o weddill y DU yn 2018. Mawr (79), Canolig (176), Bach (340).**
***Gofal: sail o faint bach.**

*Pryniannau o weddill y DU yn ôl maint y busnes a tharddle*

3.24 Ar draws holl fandiau maint y busnesau, roedd y mwyafrif llethol o'r pryniannau o weddill y DU wedi dod o Loegr. Ar gyfer busnesau canolig a mawr, roedd mwy na phedair rhan o bump (83%) o'r pryniannau oedd o weddill y DU wedi dod o Loegr, gyda chyfran uwch ar gyfer busnesau bach, sef 93%. Prynodd busnesau mawr gyfran fwy o nwyddau a gwasanaethau o'r Alban (14%) o'i gymharu â busnesau canolig a bach (4% a 3% yn y drefn honno) [Ffigur 31].

**Ffigur 31: Pryniannau o weddill y DU yn ôl y wlad a maint y busnes, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud pryniannau o weddill y DU yn 2018. Mawr (79), Canolig (176) a Bach (340).

*Pryniannau o weddill y DU fesul sector*

3.25 Ar draws yr holl sectorau, roedd y mwyafrif llethol o bryniannau a wnaed o weddill y DU wedi eu gwneud yn Lloegr (85%). Gwnaeth y sector *Adeiladu* bron bob un o'i bryniannau a ddaeth o weddill y DU yn Lloegr (£2.6bn).

3.26 Gan y sector *Gweithgynhyrchu* yr oedd y gwerth uchaf o bryniannau, sef £13.5bn, a'r sector hwn oedd yn gyfrifol am 39% o'r holl bryniannau o weddill y DU. Roedd gan y sector *Masnach, llety a chludiant* y gwerth uchaf ond un, sef £11.5bn yn 2018, a'r sector hwn oedd yn gyfrifol am draean o'r pryniannau o weddill y DU. Parhaodd cyfran o'r pryniannau o weddill y DU heb eu dyrannu;[16] felly efallai bod y canlyniadau hyn wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel [Tabl 4].

**Tabl 4: Pryniannau o weddill y DU yn ôl y sector busnes, 2018 (£ miliynau)**

| Y Sector Busnes (a) | Cyfanswm | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Heb ei ddyrannu |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgynhyrchu | **13,546** | 11,535 | 1,034 | 444 | 533 |
| Masnach, llety a chludiant | **11,475** | 9,245 | 1,782 | 129 | 319 |
| Busnesau a gwasanaethau eraill | **3,732** | 3,465 | 124 | 2 | 141 |
| Sector Cynradd a Chyfleustodau | **3,005** | 2,289 | 715 | * | * |
| Adeiladu | **2,561** | 2,552 | 4 | * | * |
| **Cyfanswm** | **34,319** | **29,086** | **3,660** | **577** | **996** |

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru

(a) Busnesau gyda phryniannau o weddill y DU yn 2018. Gweithgynhyrchu (134), Busnesau a gwasanaethau eraill (163), Masnach, llety a chludiant (218), Sector cynradd a chyfleustodau eraill (34) ac Adeiladu (46).

* yn dangos bod ffigurau wedi eu hatal lle cafwyd cyfradd ymateb isel.

[16] Ceir trosiant heb ei ddyrannu lle'r oedd gan fusnesau bryniannau o weddill y DU ond nid oeddent wedi gallu eu dyrannu i Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am bryniannau heb eu dyrannu yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol yn y Datganiad hwn.

## Mewnforion Rhyngwladol

3.27 Yn 2018, amcangyfrifwyd bod gwerth mewnforion rhyngwladol gan fusnesau yng Nghymru yn £11.bn, sy'n cyfrif am ychydig llai na phumed rhan o'r holl bryniannau gan fusnesau yng Nghymru.

3.28 Y mwyafrif llethol o fewnforion yn 2018 oedd nwyddau - roeddent yn cyfrif am 92% (£11.0bn) o'r holl fewnforion.

3.29 Daeth ychydig llai na thri chwarter y mewnforion rhyngwladol o'r UE, a'r gweddill o fannau eraill yn y byd. Amcangyfrifwyd mai gwerth y mewnforion o weddill yr UE oedd £8.6bn, a'u bod yn cyfrif am 13% o'r holl bryniannau a 72% o'r holl fewnforion gan fusnesau yng Nghymru. Gwerth y mewnforion o weddill y byd i Gymru oedd £3.3bn, ac roeddent yn cyfrif am 5% o'r holl bryniannau gan fusnesau yng Nghymru a 28% o'r holl fewnforion rhyngwladol.

3.30 Gofynnwyd i fusnesau enwi'r pum gwlad rhyngwladol pennaf yr oeddent wedi mewnforio ohonynt a gwerth y mewnforion o bob un o'r gwledydd hynny. Roedd 9% o'r mewnforion rhyngwladol heb eu dyrannu yn ôl y wlad[17]. **Dim ond pryniannau o'r pum prif wlad y gofynnwyd amdanynt gan fusnesau, felly nid yw'r ffigurau hyn yn cyfrif am yr holl fewnforion**. Cyfunwyd y ffigurau prynu hyn yn rhanbarthau byd-eang bras. Nid oes manylion ar gael ar gyfer ymraniad y nwyddau a'r gwasanaethau [Tabl 5].

[17] Nid oedd unrhyw bryniannau rhyngwladol a wnaed gan fusnesau y tu allan i'w pum prif gwlad wedi eu disgrifio, ac felly ni ellir eu cynnwys yn y ffigurau gwlad ryngwladol neu ranbarth byd-eang. Yn ogystal, efallai nad yw rhai busnesau wedi gallu dyrannu eu mewnforion rhyngwladol cyfan i wledydd penodol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y prynianau sydd heb eu dyrannu yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol yn yn y Datganiad hwn.

*Mewnforion rhyngwladol fesul rhanbarth*

3.31 Daeth bron i dri chwarter y mewnforion rhyngwladol o’r UE yn 2018 (72%; £8.6bn). Mewnforion o Asia oedd â’r gwerth uchaf ond un (13%; £1.5bn), ac yn dilyn hynny Ogledd America (5%; £0.6bn) [Tabl 5].

**Tabl 5: Mewnforion rhyngwladol fesul rhanbarth 2018**

| **Rhanbarth (a)** | **Gwerth (£ miliynau )** | **% o Allforion Rhyngwladol** |
|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd (ac eithrio’r DU) | 8,616 | 72% |
| Asia | 1,523 | 13% |
| Gogledd America | 615 | 5% |
| Gweddill Ewrop | 50 | <1% |
| Canol a De America | 46 | <1% |
| Y Dwyrain Canol | * | * |
| Affrica | * | * |
| Awstralasia | * | * |
| Heb eu dyrannu (Gweddill y byd) (b) | 1,019 | 9% |
| **Cyfanswm** | **11,909** | |

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru

(a) Busnesau gyda phryniannau mewnforio rhyngwladol 2018 (229).

(b) Mae cyfran fechan o bryniannau heb eu dyrannu i ranbarth.

*Mewnforion rhyngwladol yn ôl y wlad a’r gwerth*

3.32 Yn 2018, yr Almaen oedd y brif wlad am fewnforio i Gymru, ac roedd yn cyfrif am 15% (£1.7bn) o werth y mewnforion rhyngwladol. Roedd Gwlad Belg yn cyfrif am 8% (£1.0bn) ac roedd Tsieina yn cyfrif am 6% (£0.8bn) o’r mewnforion [Ffigur 32].

**Ffigur 32: Y pum tarddle mewnforio pennaf yn ôl gwerth y pryniant, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau gyda phryniannau mewnforio rhyngwladol 2018 (229)

*Mewnforion rhyngwladol fesul cynnyrch*

3.33 Yn unol â'r ffaith mai Gweithgynhyrchu oedd y sector gyda'r gwerth uchaf o'r holl bryniannau, y categori *nwyddau eraill wedi gweithgynhyrchu* oedd y categori cynnyrch pennaf[18] ac roedd yn cyfrif am 12% (£1.5bn) o'r holl fewnforion busnes [Tabl 6]**Error! Reference source not found.**.

3.34 *Pren wedi'i weithgynhyrchu a chynhyrchion pren a chorc* oedd yr ail uchaf o'r categorïau cynhyrchion a fewnforiwyd, gyda gwerth o £1.4bn (12%). *Peiriannau ac offer* oedd y trydydd uchaf o'r categorïau cynhyrchion a fewnforiwyd, oedd yn cyfrif am £0.8bn (7%).

**Tabl 6: Y cynhyrchion pennaf a fewnforiwyd yn rhyngwladol, 2018 (a)**

(£ miliynau)

| Y Cynnyrch | 2018 (b) |
|---|---|
| Nwyddau eraill wedi gweithgynhyrchu | **1,454** |
| Pren wedi'i weithgynhyrchu a chynhyrchion pren a chorc, heblaw dodrefn; nwyddau o wellt a defnydd plethu | **1,383** |
| Peiriannau ac offer n.e.c. | **827** |
| Cynhyrchion cemegol eraill | **515** |
| Gwasanaethau masnachu darnau ac ategolion cerbydau modur | **376** |
| Cig cadw a chynhyrchion cig | **376** |
| Trydan, trosglwyddiad a dosbarthiad | **234** |
| Nwy, dosbarthiad tanwyddau nwyol drwy'r brif system cyflenwad stêm ac aerdymheru | **234** |
| Cynhyrchion bwyd eraill wedi gweithgynhyrchu | **204** |
| Cynhyrchion metel wedi ffabrigo, heb gynnwys peiriannau ac offer ac arfau a ffrwydron rhyfel | **175** |

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru

(a) Oherwydd cyfradd ymateb isel, mae nifer o'r cynhyrchion pennaf wedi eu heithrio o'r rhestr.
(b) Busnesau gyda mewnforion 2018 (229).

[18] Dewisodd yr ymatebwyr y pum nwydd a gwasanaeth pennaf a allforiwyd yn ôl eu gwerth o restr wedi'i chodio'n barod. Mae copi o hon i'w gael yn Atodiad F yr adroddiad technegol.

# 4. Y Fasnach Gyfan

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau AMC mewn perthynas â gwerth cyfan y fasnach (gwerthiannau + phryniannau) yn 2018 gyda chyfeiriad lefel uchel at y newidiadau ers 2017. Mae'n cynnwys trosolwg o'r masnachu cyfan gan roi'r manylion fesul rhanbarth eang.

4.2 Mae'r amcangyfrifon a gyflwynir ar gyfer y fasnach gyfan wedi eu cynhyrchu drwy gyfuno canlyniadau AMC ar gyfer yr adrannau gwerthiannau a phryniannau gwahanol. Dylid nodi bod cwmpas yr amcangyfrifon yn gyfyngedig, fel yr amlinellir yn yr adran Gwybodaeth ansawdd allweddol ac ni ddylid eu defnyddio i gyfrifo cydbwysedd masnach. Cyflwynir yr amcangyfrifon am y fasnach gyfan i roi trosolwg o bwysigrwydd cymharol y marchnadoedd bras yn gyffredinol.


### Trosolwg o'r fasnach gyfan

4.3 Gwerth y fasnach gyfan (gwerthiannau a phryniannau) gan fusnesau yng Nghymru yn 2018 oedd £168.4bn, sef cynnydd o 5% ar y flwyddyn flaenorol (£160.2bn).

*Cyfanswm y fasnach fesul marchnad*

4.4 Roedd mwy na thri chwarter (76%; £128.2bn) y fasnach gyfan o fewn y DU, ac roedd wedi ei rhannu bron yn gyfartal rhwng Cymru (£63.8bn) a gweddill y DU (£64.5bn). Roedd bron i bumed rhan (19%) o'r fasnach gyda marchnadoedd rhyngwladol: roedd 12% (£20.3bn) gyda gweddill yr UE a 7% (£11.1bn) gyda gweddill y byd [Ffigur 33].

**Ffigur 33: Y fasnach gyfan fesul marchnad, 2018 (a)**




Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) Busnesau'n gwneud gwerthiannau a phryniannau yn 2018 (1,003).

# 5. Gwybodaeth ansawdd allweddol

## Perthnasedd

5.1 I sicrhau bod y data'n berthnasol, roedd cynllun a datblygiad yr AMC peilot wedi ei hysbysu gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), a gan gyfeirio at arolygon tebyg a redir gan Lywodraeth yr Alban a NISRA, sy'n casglu data am fasnach ac allforion.

5.2 Mae Global Connections Survey Llywodraeth yr Alban yn arolwg ar-lein sydd wedi ei fwriadu ar gyfer busnesau sydd â phresenoldeb yn yr Alban. Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth allweddol am weithgareddau allforio busnesau Albanaidd. Mae'n helpu Llywodraeth yr Alban i fesur gwerth a chyrchfan gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau Albanaidd a dyfnder y gyfranogaeth ryngwladol sydd gan gwmnïau Albanaidd. Mae'r arolwg yn wirfoddol, a chafodd gyfradd ymateb o 17% yn 2018. Mae'r canfyddiadau wedi eu cyfuno gyda ffynonellau data gweinyddol ac arolygon eraill i gynhyrchu cyhoeddiad Ystadegau Gwladol, Export Statistics Scotland, sy'n amcangyfrif gwerth allforion Albanaidd ar lefel y sectorau. Mae'r amcangyfrifon hyn yn ffynhonnell ddata allweddol ar gyfer ystadegau cenedlaethol Llywodraeth yr Alban a dyma'r unig ffynhonnell o amcangyfrifon am allforion o'r Alban i weddill y DU.

5.3 Mae'r Northern Ireland Statistics and Research Agency yn gwneud eu harolwg eu hunain, the Northern Ireland Annual Business Inquiry (NIABI). Mae hwn yn casglu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am gyflogaeth gan fusnesau sydd â phresenoldeb yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r NIABI yn darparu nifer o ddangosyddion lefel uchel o weithgarwch economaidd, gan gynnwys gwybodaeth am drosiant a gwerth cyfan gwerthiannau, ac mae wedi ei lunio i ddarparu'r amcangyfrifon gorau ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r NIABI yn ymholiad busnes gorfodol, a chafodd gyfradd ymateb o 60% yn 2018. Mae'r NIABI yn darparu data masnach i Broad Economy Sales and Exports Statistics, sef mesuriad blynyddol arbrofol o werthiannau busnesau i farchnadoedd y tu allan i Ogledd Iwerddon. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys amcangyfrifon o werth nwyddau a gwasanaethau a werthir gan fusnesau yng Ngogledd Iwerddon a'u cyrchfannau.

5.4 Ymysg y ffynonellau eraill sy'n berthnasol i amcanion yr ymchwil hwn mae'r arolwg Masnach Ryngwladol mewn Gwasanaethau (ITIS), sef arolwg ledled y DU a weinyddir gan ONS, sy'n casglu gwybodaeth am drafodion tramor ymgynghorwyr a chwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau busnes. Mae'r wybodaeth a gesglir gan ITIS yn cael ei bwydo i mewn i ddata cydbwysedd taliadau'r DU ac yn cael ei chyhoeddi ar lefel y DU. Dyma hefyd y brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir gan ONS i amcangyfrif mewnforion ac allforion gwasanaethau ar lefel y DU ac ar lefel is-genedlaethol.

5.5 Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am fasnach ryngwladol y DU mewn nwyddau, sy'n cael ei chyhoeddi fel dwy gyfres Ystadegau Gwladol - Ystadegau Masnach Dramor (OTS) y DU ac Ystadegau Masnach Ranbarthol y DU.[19]

5.6 Cafwyd rhywfaint o brofi gwybyddol ar gwestiynau AMC cyn rhedeg yr arolwg peilot er mwyn helpu i sicrhau bod yr arolwg yn berthnasol, yn ogystal â lleihau'r baich cymaint ag y bo modd ar fusnesau'r ymatebwyr.

### Cywirdeb

5.7 Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn y datganiad hwn mor gywir a dibynadwy ag y bo modd. Fodd bynnag, dylid cofio rhai ystyriaethau am y data wrth ddarllen canfyddiadau AMC:

- **Sail fechan.** Ar y lefel gyffredinol, mae maint y sampl a gafwyd yn dda ac yn gadarn, ond, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau lle mae maint y seiliau'n llai. Mae'r achosion o hynny wedi eu hamlygu yn y datganiad.
- **Cynrychioldeb**. Cafodd y data ei bwysoli a'i grosio i fyny i boblogaeth gyfan y sectorau busnes sy'n rhan o gwmpas AMC ar sail data IDBR 2018; nid yw hyn yn gwarantu cynrychioldeb cyflawn.
- **Y cwmpas o ran y diwydiant.** Roedd y sectorau diwydiannol dilynol wedi eu heithrio o'r sampl: gweinyddiaeth gyhoeddus; amddiffyniad; gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol; gweithgareddau cartrefi fel cyflogwyr; a sefydliadau alldiriogaethol. Roedd y busnesau dilynol oedd â statws cyfreithiol penodol wedi eu heithrio hefyd: sefydliadau awdurdod lleol; llywodraeth leol; y mwyafrif o gyrff nid-er-elw (mae prifysgolion wedi eu cynnwys) (i gael rhestr fanwl o'r eithriadau, gwelwch Atodiad A yr Adroddiad Technegol).
- **Dibynadwyedd yr ymatebion.**

  Ar sail adborth geiriol a gafwyd drwy'r broses o fynd ar ôl ymatebion ac mewn sylwadau o fewn yr arolwg gan fusnesau, efallai bod rhai ymatebwyr wedi bod yn fwy tebygol nag eraill o ddibynnu ar werthoedd a amcangyfrifwyd, yn enwedig ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am werthoedd masnach rhwng Cymru a gweddill y DU (Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae sylwadau gan fusnesau o fewn yr arolwg yn awgrymu eu bod yn teimlo bod rhai amcangyfrifon yn ddeallus a gweddol gywir, tra bo nifer fach o amcangyfrifon eraill yn fwy ansicr. Mae'r un peth yn wir am yr ymrannu rhwng nwyddau a gwasanaethau; datgelodd canlyniadau'r profi gwybyddol bod rhai sectorau a busnesau'n ansicr a oedd eu gwerthiannau neu bryniannau wedi eu categoreiddio fel

[19] Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r canfyddiadau yn y datganiad hwn yn cymharu gyda data CThEM ac ONS yn yr adran 'Cymaroldeb a Chydlyniaeth'.

nwydd neu wasanaeth. O ganlyniad, o ystyried yr adborth a gafwyd gan ymatebwyr, bydd rhai o'r gwerthoedd a ddarperir yn fwy dibynadwy nag eraill.

- **Priodoli**. Roedd angen i gyfran fechan o'r data gael ei phriodoli. Y canran uchaf o achosion a briodolwyd ar gyfer unrhyw newidyn unigol oedd 3.5% o'r achosion.
- **Gwerthoedd heb eu dyrannu**: O fewn y dadansoddiad, mae nifer o enghreifftiau o ddata am werthiannau neu bryniannau sydd 'heb ei ddyrannu'. Cafwyd data heb ei ddyrannu:

  a) lle soniodd busnesau am werth na allent fanylu arno na'i ddyrannu ymhellach (yn ôl cyrchfan). Er enghraifft, efallai y byddai busnes yn gwybod faint o drosiant oedd ganddo o weddill y DU, ond efallai nad oedd yn gwybod sut yr oedd y trosiant hwn wedi ei rannu rhwng Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad, efallai bod y ffigurau a ddangosir ar gyfer Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel, oherwydd byddai pob un o'r gwledydd hyn wedi rhoi cyfrif am gyfran (rhwng 0% a 100%) o'r swm oedd heb ei ddyrannu.

  b) lle'r oedd gan fusnesau werthiannau neu bryniannau rhyngwladol y tu allan i'r pum prif wlad y gofynnwyd am ffigurau ar eu cyfer, ni allent gael eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y wlad ryngwladol neu'r rhanbarth byd-eang. Er enghraifft, efallai bod 95% o werthiannau allforio busnes wedi ei ddyrannu i'w 5 prif wlad, ond maer 5% sy'n weddill wedi ei rannu rhwng dwy wlad ychwanegol.

  Efallai bod rhai busnesau wedi ei chael hi'n anoddach nag eraill i ddyrannu eu gwerthiannau neu bryniannau i gyd, a dylid ystyried hyn wrth adolygu'r canfyddiadau.

- **Cyrchfan neu darddle cynhyrchion:** Trwy AMC ar ei hyd, gofynnwyd i fusnesau gofnodi cyrchfannau eu gwerthiannau a tharddle eu pryniannau. Mae'n bwysig nodi nad yw'r cyrchfannau hyn, i rai busnesau, yn cynrychioli'r cyrchfan neu'r tarddle pennaf ar gyfer y nwyddau neu'r gwasanaethau hyn.

## Amseroldeb a phrydlondeb

5.8 Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael a gasglwyd gan fusnesau. Casglwyd y data yng ngaeaf 2019 oedd yn golygu mai data'r flwyddyn galendr 2018 oedd y diweddaraf oedd ar gael i'w gasglu. Casglwyd data 2017 hefyd i'w gwneud hi'n haws i wneud cymhariaeth cyfres amser, sy'n ddefnyddiol i sefydlu gwaelodlin cyn COVID a chyn yr ymadawiad â'r UE.

5.9 Cafodd y cyhoeddiad ei ohirio am fod y trefniadau gweithio ac adnoddau wedi eu hamharu rhywfaint gan bandemig y coronafeirws.

### Hygyrchedd ac eglurder

5.10 Mae'r datganiad hwn wedi'i ysgrifennu mewn ffordd mor hygyrch â phosibl, gan gynnwys testun amgen ("Alt Text") ar gyfer yr holl ddelweddau, ac rydym yn bwriadu defnyddio Saesneg clir yn ein hadroddiadau. Mae'r holl adroddiadau hyn ar gael yn ddwyieithog hefyd, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

5.11 Mae'r amcangyfrifon am fasnach Cymru a gynhyrchwyd gan AMC yn rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru i wella'r wybodaeth sydd ar gael am fasnach ryngwladol a masnach o fewn y DU gan fusnesau yng Nghymru. Mae'r holl ffigurau a gyflwynir yn arbrofol. Daw'r adroddiad cychwynnol hwn o fethodoleg newydd a allai gael ei newid ar sail adborth. Bydd yr amcangyfrifon hyn yn parhau'n arbrofol tra bydd y gwaith datblygu'n parhau. Ein nod yw cynhyrchu rhagor o gyhoeddiadau am fasnach Cymru, wedi eu seilio ar ganlyniadau AMC ac ymgorfforiad ffynonellau data amgen i wella'r cwmpas o ran busnesau a sectorau.

5.12 Bydd y canlyniadau'n casglu gwybodaeth am lifoedd masnach gan fusnesau yn unig ac, felly, ni ellir cymharu'r data am allforion a mewnforion yn uniongyrchol â'i gilydd i gyfrifo cydbwysedd masnach cyffredinol i Gymru. Roedd pryniannau yn uniongyrchol i'r cwsmer (mewnforion) y tu allan i gwmpas yr ymchwil hwn.

### Ffynonellau eraill ystadegau am fasnach ryngwladol Cymru

5.13 Mae amcangyfrifon am fasnach Cymru'n cael eu cynhyrchu hefyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (nwyddau a allforiwyd ac a fewnforwyd yn rhyngwladol) ac ONS (gwasanaethau a allforiwyd ac a fewnforwyd yn rhyngwladol). Mae cymhariaeth fanwl rhwng amcangyfrifon AMC ac amcangyfrifon o'r ffynonellau eraill hyn wedi eu cynnwys yn Atodiad A.

| **Y Ffynhonnell** | **Amcangyfrifon a gyhoeddwyd** | **Manylion** | **Amseriad** |
|---|---|---|---|
| Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM | Gwerth a maint allforion a mewnforion nwyddau rhyngwladol. Mae'r ffigurau'n cynnwys allforion a mewnforion **nwyddau yn unig ac nid ydynt yn cynnwys gwasanaethau**. Mae ffigurau'r DU wedi eu dyrannu i ranbarthau yn y DU, gan gynnwys Cymru. | Y wlad<br>Y math o nwydd | Chwarterol<br>Y cyhoeddiad diweddaraf ar gyfer Ch4 2019 (cyhoeddwyd Mawrth 2020) |
| Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)<br>**(Ystadegau Arbrofol)** | Amcangyfrifon arbrofol o werth allforion gwasanaethau, wedi eu seilio ar ddata'r DU, a ddyrannwyd i ranbarthau is- | Y diwydiant<br>Y rhanbarth | Blynyddol<br>Y cyhoeddiad diweddaraf ar gyfer 2017 (cyhoeddwyd Medi 2019) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | genedlaethol, gan gynnwys Cymru. | | |
| Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)<br>**(Ystadegau Arbrofol)** | Amcangyfrifon arbrofol o werth allforion gwasanaethau, wedi eu seilio ar ddata'r DU, a ddyrannwyd i ranbarthau is-genedlaethol, gan gynnwys Cymru. | Y diwydiant<br>Y rhanbarth | Blynyddol<br>Y cyhoeddiad diweddaraf ar gyfer 2017 (cyhoeddwyd Ebrill 2020) |
| Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) | Cyfrifiad wedi ei ddyrannu'n rhanbarthol o allforwyr a mewnforwyr nwyddau a gwasanaethau ym Mhrydain Fawr | Allforwyr<br>Mewnforwyr<br>Rhanbarth<br>Nwyddau<br>Gwasanaethau | Blynyddol<br>Y cyhoeddiad diweddaraf ar gyfer 2018 (cyhoeddwyd Tachwedd 2019) |

5.14 Cynhyrchir data arall am fasnach ranbarthol y DU gan:

- Ogledd Iwerddon: Trosolwg o fasnach Gogledd Iwerddon, wedi ei gynhyrchu gan NISRA (Northern Ireland Statistics and Research Agency).
- Yr Alban: Amcangyfrifon swyddogol am allforion yr Alban yn 2018, wedi eu cynhyrchu gan Lywodraeth yr Alban. Maent yn cynnwys y sectorau Gweithgynhyrchu a gwasanaethau economi yr Alban ond nid ydynt yn cynnwys nwy ac olew. Mae gwybodaeth wedi ei darparu am allforion rhyngwladol, yn cynnwys gwledydd yr UE a'r rhai y tu allan i'r UE, yn ogystal ag allforion i weddill y DU.
- DU: Gwerth cyfan allforion a mewnforion y DU o nwyddau a gwasanaethau mewn prisiau cyfredol, mesurau cyfaint cadwynog a dadchwyddiant ymhlyg.

## Atodiad A – Cymhariaeth rhwng methodoleg AMC a ffynonellau data amgen

Casglodd AMC wybodaeth am werth enwol y gwerthiannau a'r pryniannau a wnaed gan fusnesau yng Nghymru. Roedd y cwestiynau'n gofyn i fusnesau adrodd am fasnach eu 'gweithrediadau sydd â'u sail yng Nghymru' yn unig, yn cynnwys symudiadau rhyngwladol ac o fewn y DU. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r amcangyfrifon o fasnach ryngwladol Cymru sydd i'w cael yn y ffynonellau data amgen.

Mae'r amcangyfrifon presennol yn defnyddio data a gasglwyd ar lefel y DU sydd wedi ei ddyrannu i ranbarthau ar sail cyfrifiad o weithwyr cyflogedig y busnes ymhob rhanbarth. Un o wendidau'r dull hwn yw ei fod yn dyrannu masnach gyfan busnes yn unffurf ar draws ei ganghennau i gyd. Gall camddyrannu ddigwydd pan fydd gan fusnes nifer o ganghennau ar draws y DU sy'n ymgysylltu â gweithgareddau gwahanol. Dyrennir cyfran o weithgareddau cyfan y busnes yn y DU i'r rhanbarthau, ac efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r gweithgarwch sy'n digwydd mewn rhanbarth yn union gywir.

***Esiampl ddamcaniaethol***

> Busnes gyda dwy gangen, un yn Lloegr yn cynhyrchu moduron trydan ac ail gangen yng Nghymru sy'n cynhyrchu offer rheoli ar gyfer moduron trydan. Trwy ddyraniad rhanbarthol, bydd cyfran o'r fasnach offer rheoli sydd wedi ei seilio yng Nghymru mewn gwirionedd yn cael ei ddyrannu i Loegr, ac yn yr un modd bydd cyfran o'r fasnach foduron trydan sydd wedi ei seilio yn Lloegr yn cael ei dyrannu i Gymru. Byddai'r gyfran o'r fasnach a ddyrennir wedi ei seilio ar gyflogaeth y busnes ar draws y ddwy gangen/y ddau ranbarth. Mae hyn yn golygu y bydd y gangen sydd â'r gyflogaeth fwyaf hefyd yn derbyn cyfran fwy o'r gwerth masnach, ac efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r gwir ymraniad gwerth rhwng y canghennau.

Mae'r amcangyfrifon presennol am nifer yr allforwyr a mewnforwyr yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dwy fethodoleg wahanol, dull cyfrif cyfraneddol (ONS a CThEM) a dull rhif cyfan (CThEM). Mae'r ddau ddull yma'n dibynnu ar ddata a gasglwyd ar lefel y DU sydd wedyn yn cael ei ddyrannu i ranbarthau.

Mae'r dymuniad i wella ein dealltwriaeth o weithgarwch masnach gan fusnesau yng Nghymru wedi siapio datblygiad AMC. Felly, mae methodoleg AMC, fel y mae wedi'i disgrifio yn yr Adroddiad Technegol, yn wahanol i'r amcangyfrifon sydd i'w cael yn barod am nad yw'n defnyddio dyraniad. Mae'r gwahaniaethau methodolegol yn golygu **nad yw amcangyfrifon AMC yn uniongyrchol gymaradwy ag amcangyfrifon CThEM ac ONS.** Mae'r adrannau dilynol yn pennu'r gwahaniaethau allweddol mewn methodoleg a'r cyfyngiadau wrth wneud cymariaethau.

### Dosraniad

Mae AMC wedi ei seilio ar ymatebion arolwg gan 1,061 o fusnesau y gofynnwyd iddynt nodi'r allforion o'u gweithredoedd sydd wedi eu seilio yng Nghymru. Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu pwysoli a'u grosio i gynhyrchu amcangyfrifon ar lefel Cymru. Mae amcangyfrifon Ystadegau

Masnach Ranbarthol CThEM a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dosrannu data ar lefel y DU ar sail cyflogaeth busnesau ar draws y DU i gynhyrchu amcangyfrifon rhanbarthol.

Mae cyfrifiad CThEM o allforwyr a mewnforwyr yn cael ei ddosrannu i ranbarthau gan ddefnyddio dau ddull gwahanol[20]. Mae'r dull cyfrannedd yn cyfri busnesau fel ffracsiwn ymhob rhanbarth ar sail y gyfran o'r gyflogaeth sydd ganddynt. Mae'r dull rhifau cyfan yn cyfri pob busnes fel un ymhob rhanbarth lle mae ganddo bresenoldeb.

Mae amcangyfrifon ONS o allforwyr a mewnforwyr yn dosrannu statws masnach yr uned adrodd i'r holl unedau lleol yn y busnes ar sail maint eu cyflogaeth.

### Cwmpas

Mae AMC yn ymdrin dim ond â masnach busnes. Nid yw'n ymdrin â mewnforion yn uniongyrchol i'r defnyddiwr. Bydd rhai pryniannau mewn gwledydd tramor, yn cynnwys twristiaeth, sydd heb eu cynnwys yn ystadegau mewnforion AMC.

Dim ond busnesau gyda chyflogaeth o dri neu fwy oedd yn sampl AMC. Ni chasglwyd gwybodaeth am fasnach o fusnesau llai ac nid yw amcangyfrifon Cymru wedi eu grosio yn cynnwys y busnesau llai hyn.

Mae AMC yn eithrio rhai sectorau. Mae'r sectorau sydd wedi eu heithrio yn cynnwys gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, gweithgareddau cwmnïau dal, gwasanaethau personol, gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau difyrrwch a hamdden. Mae rhestr gyflawn o'r eithriadau i'w chael yn Atodiad A yr Adroddiad Technegol.

Mae amcangyfrifon CThEM yn cynnwys dim ond masnach mewn nwyddau tra bo AMC yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau hefyd.

### Cyfyngiadau wrth gasglu data

Er mwyn lleihau'r baich ar ymatebwyr a busnesau, dim ond ar gyfer pum prif wlad a phum prif gynnyrch pob ymatebwr y casglodd AMC fanylion gwerth. Nid oes cyfyngiad tebyg gan arolwg Masnach Ryngwladol mewn Gwasanaethau ONS, sef y ffynhonnell ddata a ddefnyddir ar gyfer yr amcangyfrifon presennol am fasnach gwasanaethau rhanbarthol. Mae data gweinyddol CThEM a ddefnyddiwyd ar gyfer eu hystadegau masnach ranbarthol yn cynnwys yr holl wybodaeth am gynhyrchion a gwledydd ar gyfer cyhoeddiadau am fasnach o'r UE a masnach y tu allan i'r UE uwchlaw'r trothwyon intrastat.

Roedd cyfyngu casgliad y data i'r pum prif wlad ar gyfer pob ymatebwr wedi gadael rhywfaint o'r fasnach heb ei dyrannu lle'r oedd y manylion ar eu hisaf. Yn 2018 roedd £1.5bn (8%) o werth allforion Cymru heb eu dyrannu i gyrchfan. Yn yr un modd yn 2018, roedd £1.0bn (9%) o werth mewnforion Cymru heb eu dyrannu i darddle.

[20] Gellir canfod rhagor o fanylion am fethodoleg Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM ar-lein.

### Samplu

Mae AMC wedi ei seilio ar sampl strata ar hap o 8,000 o fusnesau (gyda 1,061 o ymatebion) y gofynnwyd iddynt nodi'r allforion o'u gweithredoedd sydd wedi eu seilio yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd yn fanwl yn yr Adroddiad Technegol, mae canlyniadau'r arolwg wedi eu pwysoli a'u grosio i gynhyrchu amcangyfrifon ar lefel Cymru. Mae amcangyfrifon gwasanaethau ONS hefyd yn defnyddio arolygon sampl i gasglu data, ond mae ganddyn nhw'r fantais o bwerau arolygu gorfodol ac, o ganlyniad i hynny, gyfraddau ymateb uwch.

Mae amcangyfrifon masnach ranbarthol CThEM yn defnyddio data o ddatganiadau masnach a ddefnyddir ar gyfer Ystadegau Masnachu Tramor y DU. Mae'r ffynonnell ddata weinyddol hon yn cwmpasu'r holl fasnach nwyddau rhyngwladol i lefel uchel, ac felly mae'n fwy cynhwysfawr na dulliau sydd wedi eu seilio ar arolygon.

### Cadwyni Cyflenwi

Casglodd AMC wybodaeth am werthiannau a phryniannau a wnaed yn rhyngwladol ac o fewn y DU. Wrth gasglu'r wybodaeth hon gofynnwyd i'r ymatebwyr gynnwys nwyddau a gwasanaethau oedd wedi eu trosglwyddo'n fewnol i rannau o'u busnes y tu allan i Gymru. Hefyd gofynnwyd i ymatebwyr ddyrannu masnach i gyrchfannau ar sail eu partner uniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi, nid ffynhonnell wreiddiol na chyrchfan terfynol pryniant neu werthiant. Felly, gallai symudiad nwyddau drwy gadwyni cyflenwi yn y DU guddio tarddle rhyngwladol neu gyrchfan terfynol yng nghanlyniadau AMC, sydd o bosib wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon sydd i'w cael yn barod sydd wedi eu seilio ar wybodaeth ar lefel y DU.

### Ystyriaethau eraill

Mae mewnforion ac allforion gwasanaethau rhanbarthol ONS yn ystadegau arbrofol hefyd gyda methodoleg sy'n esblygu. Cyhoeddodd ONS yr amcangyfrifon cyntaf am fewnforio gwasanaethau rhanbarthol ym mis Ebrill 2020; roedd y rhain yn ymwneud â data 2017. Aeth amcangyfrifon am allforio gwasanaethau rhanbarthol ONS drwy newid methodoleg ar gyfer data 2017.

### Cymhariaeth â'r ystadegau presennol

Er gwaethaf yr anawsterau wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng amcangyfrifon masnach AMC a'r rheiny a gyhoeddwyd gan CThEM ac ONS, cyflwynir canfyddiadau lefel uchel AMC ochr yn ochr â'r amcangyfrifon cyfatebol sydd i'w cael yn barod am fasnach ryngwladol er mwyn eglurder. Defnyddiwyd data 2017 ar gyfer y gymhariaeth hon am mai dyma'r data mwyaf diweddar sydd ar gael am wasanaethau Cymru gan ONS.

Nid oes unrhyw ystadegau swyddogol eraill yn bodoli am fasnach o Gymru i rannau eraill o'r DU i'w cymharu.

*Gwerth masnach ryngwladol*

Does dim ffynhonnell unigol o wybodaeth am fasnach Cymru'n bodoli, yn lle hynny mae Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM yn rhoi amcangyfrifon am fasnach nwyddau ac mae ystadegau arbrofol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn rhoi amcangyfrifon am wasanaethau. Oherwydd y gwahaniaethau mewn methodoleg rhwng y ddwy ffynhonell hyn, yn dechnegol ni ddylent gael eu cyfuno i gynhyrchu amcanion am allforion neu fewnforion 'cyfan' Cymru. Fodd bynnag, i roi cymhariaeth eang o raddfa'r gwahaniaethau rhwng canlyniadau AMC a ffynonellau eraill maen nhw wedi eu cyfuno i ddarparu enghraifft.

Mae'r ffynonellau sydd i'w cael yn barod yn amcangyfrif bod allforion rhyngwladol Cymru oddeutu £22.4bn yn 2017. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif AMC o £19.2bn [Tabl A1]. Dylid trin y cymhariaethau dilynol rhwng yr amcangyfrifon yn ofalus gan roi ystyriaeth briodol i'r gwahaniaethau mewn methodoleg. Fel y dywedwyd, nid oedd sampl AMC yn cynnwys rhai sectorau, a hynny'n fwyaf nodedig o fewn y sector gwasanaethau ariannol. I gael cymhariaeth fwy realistig mae 'gweithgareddau ariannol ac yswiriant' wedi eu heithrio o ffigurau allforion gwasanaethau rhanbarthol ONS.

**Tabl A1: Cymhariaeth rhwng allforion rhyngwladol**

| Allforion rhyngwladol Cymru (£ miliwn) | | 2017 | | | 2018 (a) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif AMC | Amcangyfrif amgen | Y gwahaniaeth | Amcangyfrif AMC |
| **Cyfanswm yr allforion rhyngwladol** | | 19,214 | 22,396 | **-3,182** | 19,578 |
| | Gweddill yr UE | 11,603 | 11,935 | **-332** | 11,729 |
| | Gweddill y byd | 7,611 | 10,461 | **-2,850** | 7,849 |
| **Nwyddau** | | | | | |
| | Gweddill yr UE | 11,149 | 9,963 | **1,186** | 11,260 |
| | Gweddill y byd | 7,040 | 6,516 | **524** | 7,246 |
| **Gwasanaethau** | | | | | |
| | Gweddill yr UE | 454 | 1,972 | **-1,518** | 469 |
| | Gweddill y byd | 572 | 3,945 | **-3,373** | 603 |

**Ffynhonnellau: Arolwg Masnach Cymru 2018; CThEM; ONS**

(a) Nid yw amcangyfrifon amgen 2018 ar gael ar hyn o bryd.

Mae amcangyfrifon AMC yn ymddangos yn is o'u cymharu â ffynonellau eraill ar gyfer gwasanaethau ac ar gyfer allforion i weddill y byd. Mae'n debyg bod y gwahaniaethau mewn methodoleg a chwmpas wedi cyfrannu at hynny. Er bod arweiniad wedi ei roi, efallai bod ymatebwyr wedi dyrannu eu hallforion fel nwydd neu wasanaeth mewn ffordd sy'n anghyson â ffynonellau eraill.

Efallai bod cyfyngu ar ymatebwyr i ddewis eu pum cyrchfan allforio pennaf wedi cyfrannu at roi amcangyfrif rhy isel o'r allforion i weddill y byd.

Yn 2017 amcangyfrifwyd bod gan Gymru oddeutu £22.3bn o fewnforion rhyngwladol, ar sail amcangyfrif o nwyddau Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM ac amcangyfrif o wasanaethau ystadegau arbrofol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae hyn wedi ei gymharu ag amcangyfrif AMC o £12.4bn [Tabl A2]. Dylid trin y cymhariaethau dilynol rhwng yr amcangyfrifon yn ofalus gan ddefnyddio'r cafeatau priodol fel y maent wedi eu hamlinellu yn y cyfyngiadau sydd wedi eu rhestru uchod.

Mae'r gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon AMC a ffynonellau eraill yn llawer mwy ar gyfer mewnforion nac allforion. Efallai bod cyfyngu ymatebwyr i ddewis eu pum prif darddle mewnforion wedi cyfrannu at amcangyfrif y mewnforion o weddill y byd yn rhy isel. Hefyd, nid yw'r arolwg yn casglu gwybodaeth am wariant uniongyrchol defnyddwyr Cymru dramor, a fyddai'n cael ei chasglu fel mewnforion twristiaeth. Mae cadwynni cyflenwi busnesau o fewn y DU hefyd yn cymhlethu'r broses o gasglu gwybodaeth am nwyddau mewnforio. Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr adrodd am darddleoedd pryniannau wedi eu seilio ar eu partner uniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys derbyn nwyddau o rannau o'u busnesau sydd wedi eu seilio mewn rhanbarthau eraill o'r DU. Felly, efallai bod symudiad nwyddau drwy gadwyni cyflenwi o fewn y DU yn cuddio tarddle rhyngwladol, a fyddai'n cael ei gasglu yn rhan o'r data ar lefel y DU a ddefnyddir yn yr amcangyfrifon rhanbarthol presennol.

**Tabl A2: Cymhariaeth rhwng mewnforion rhyngwladol**

| Mewnforion rhyngwladol Cymru (£ miliwn) | 2017 | | | 2018 (a) |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif AMC | Amcangyfrif amgen | Y gwahaniaeth | Amcangyfrif AMC |
| **Cyfanswm yr allforion rhyngwladol** | 12,377 | 22,308 | **-9,931** | 11,908 |
| Gweddill yr UE | 9,170 | 9,866 | **-696** | 8,616 |
| Gweddill y byd | 3,207 | 12,442 | **-9,235** | 3,292 |
| **Nwyddau** | | | | |
| Gweddill yr UE | 8,543 | 7,388 | **1,155** | 7,948 |
| Gweddill y byd | 2,932 | 10,225 | **-7,293** | 3,009 |
| **Gwasanaethau** | | | | |
| Gweddill yr UE | 627 | 2,478 | **-1,851** | 668 |
| Gweddill y byd | 275 | 2,217 | **-1,942** | 284 |

**Ffynhonnellau: Arolwg Masnach Cymru 2018; CThEM; ONS**

(a) Nid oes amcangyfrifon amgen ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 2018.

### Y Wlad

Yn 2018, ar sail Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM, yr Almaen oedd y farchnad allforio fwyaf ar gyfer **nwyddau Cymru**, ac yn dilyn hynny oedd Ffrainc, UDA, Iwerddon a'r Iseldiroedd. Cymharir hyn ag amcangyfrifon AMC sy'n rhoi Ffrainc fel y farchnad allforio fwyaf ar gyfer **nwyddau a gwasanaethau Cymru** ac yn dilyn hynny Tsieina, yr Iseldiroedd, yr Almaen a'r Unol Daleithiau [Tabl A3]. Dylid trin y cymhariaethau dilynol rhwng yr amcangyfrifon gyda gofal gan ddefnyddio'r cafeatau priodol yn y cyfyngiadau sydd wedi eu hamlinellu uchod.

**Tabl A3: Cymhariaeth rhwng allforion rhyngwladol fesul gwlad gyrchfan (£ miliynau)**

| 2017 | | | | 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Wlad | Amcangyfrif AMC (a) | Y Wlad | Amcangyfrif CThEM (b) | Y Wlad | Amcangyfrif AMC (a) | Y Wlad | Amcangyfrif CThEM (b) |
| Ffrainc | 4,325 | Yr Almaen | 3,219 | Ffrainc | 4,343 | Yr Almaen | 3,118 |
| Yr Iseldiroedd | 1,805 | Ffrainc | 2,732 | Tsieina | 1,918 | Ffrainc | 2,680 |
| Tsieina | 1,804 | Yr Unol Daleithiau | 2,291 | Yr Iseldiroedd | 1,866 | Yr Unol Daleithiau | 2,445 |
| Yr Almaen | 1,596 | Iwerddon | 1,040 | Yr Almaen | 1,722 | Iwerddon | 1,511 |
| Yr Unol Daleithiau | 1,455 | Yr Iseldiroedd | 689 | Yr Unol Daleithiau | 1,578 | Yr Iseldiroedd | 746 |
| Singapore | 982 | Yr Emiraethau Arabaidd Unedig | 558 | Singapore | 985 | Gwlad Belg | 569 |
| Iwerddon | 620 | Sbaen | 469 | Iwerddon | 627 | Yr Emiraethau Arabaidd Unedig | 498 |
| Gwlad Belg | 553 | Gwlad Belg | 456 | Gwlad Belg | 553 | Sbaen | 492 |
| Taiwan | * | Canada | 359 | Taiwan | * | Tsieina | 379 |
| India | * | Twrci | 348 | India | * | Canada | 346 |

**Ffynhonnellau: Arolwg Masnach Cymru 2018; CThEM**

(a) Mae amcangyfrifon AMC yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau.
(b) Mae amcangyfrifon CThEM yn cynnwys nwyddau yn unig.

Yn 2018, ar sail Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM, UDA oedd y farchnad fewnforio fwyaf ar gyfer **nwyddau Cymru**, ac yn dilyn hynny roedd Yr Almaen, Tsieina, Yr Iseldiroedd a Ffrainc. Cymharir hyn ag amcangyfrifon AMC sy'n rhoi'r Almaen yn farchnad fewnforio fwyaf ar gyfer **nwyddau a gwasanaethau o Gymru** ac yn dilyn hynny Wlad Belg, Tsieina, Yr Iseldiroedd a'r Unol Daleithiau [Tabl A4]. Dylid trin y cymhariaethau dilynol rhwng yr amcangyfrifon gyda gofal gan ddefnyddio'r cafeatau priodol yn y cyfyngiadau. Un gwahaniaeth allweddol mewn methodoleg a fydd yn debygol o achosi amrywio oddi wrth yr amcangyfrifon sydd i'w cael yn barod yw cynnwys cadwyni cyflenwi'r DU yn AMC. Bydd trosglwyddiadau rhwng cwmnïau o Gymru i ranbarthau eraill o'r DU wedi eu casglu felly yng nghanlyniadau AMC, beth bynnag fo lleoliad y cwsmer terfynol. Mae hyn yn

wahanol i'r amcangyfrifon sydd i'w cael yn barod sy'n defnyddio data a gasglwyd ar lefel cwmnïau'r DU, lle mae gwerthiannau i gwsmeiriaid rhyngwladol wedi eu casglu felly a'u dyrannu i ranbarthau o'r DU.

## Tabl A4: Cymharu mewnforion rhyngwladol yn ôl y wlad o le maent yn tarddu (£ miliynau)

| 2017 | | | | 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Wlad | Amcangyfrif AMC (a) | Y Wlad | Amcangyfrif CThEM (b) | Y Wlad | Amcangyfrif AMC (a) | Y Wlad | Amcangyfrif CThEM (b) |
| Yr Almaen | 1,838 | Yr Unol Daleithiau | 2,447 | Yr Almaen | 1,731 | Yr Unol Daleithiau | 2,971 |
| Gwlad Belg | 950 | Yr Almaen | 2,022 | Gwlad Belg | 970 | Yr Almaen | 1,921 |
| Tsieina | 786 | Tsieina | 1,174 | Tsieina | 769 | Tsieina | 1,142 |
| Yr Iseldiroedd | 746 | Yr Iseldiroedd | 1,042 | Yr Iseldiroedd | 709 | Yr Iseldiroedd | 1,053 |
| Yr Unol Daleithiau | 629 | Norwy | 930 | Yr Unol Daleithiau | 609 | Ffrainc | 810 |
| Ffrainc | 520 | Ffrainc | 889 | Ffrainc | 535 | Algeria | 756 |
| Sbaen | 301 | Sbaen | 604 | Sbaen | 308 | Japan | 601 |
| Gwlad Pwyl | 282 | Gwlad Belg | 594 | Gwlad Pwyl | 282 | Gwlad Belg | 591 |
| Lwcsembwrg | 250 | Japan | 457 | Gwlad Thai | 270 | Canada | 487 |
| Awstria | 249 | Canada | 439 | Lwcsembwrg | 255 | Twrci | 466 |

**Ffynhonnellau: Arolwg Masnach Cymru 2018; CThEM**

(a) Mae amcangyfrifon AMC yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau.
(b) Mae amcangyfrifon CThEM yn cynnwys nwyddau yn unig.

*Nifer yr allforwyr a’r mewnforwyr rhyngwladol*

Cynhyrchodd AMC amcangyfrifon am y gyfran o fusnesau sy’n allforio ac yn mewnforio o’r UE a gweddill y byd. Trwy ddefnyddio’r cyfraneddau hyn ar gyfer y boblogaeth fusnes yng Nghymru, mae canlyniadau AMC yn rhoi amcangyfrif o nifer yr allforwyr a mewnforwyr[21]. Mae’r ffigurau’n weddol debyg ar gyfer yr allforwyr o’u cymharu â dull rhifau cyfan CThEM. Mae mwy o wahaniaeth gyda’r mewnforwyr, ond fel y trafodwyd uchod, gallai symudiad nwyddau drwy gadwyni cyflenwi o fewn y DU guddio tarddle rhyngwladol yn nata AMC [Tabl A5].

### Tabl A5: Cymharu’r niferoedd allforwyr a mewnforwyr, 2018

| | | **Nwyddau a/neu wasanaethau** | | **Nwyddau** | | | | **Gwasanaethau** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **AMC** | **ONS** (a) | **AMC** | **ONS** (a) | **CThEM** (b) Dull cyfrannu | **CThEM** (c) Dull rhif cyfan | **AMC** | **ONS** (a) |
| **Allforwyr** | **REU** | 5,267 | 4,300 | 4,052 | 3,200 | 3,205 | 4,206 | 1,653 | 1,700 |
| | **ROW** | 3,783 | | 2,603 | | 1,953 | 2,992 | 1,412 | |
| **Mewnforwyr** | **REU** | 6,184 | 5,900 | 5,522 | 4,800 | 4,889 | 6,242 | 1,493 | 1,600 |
| | **ROW** | 2,715 | | 2,576 | | 3,517 | 4,716 | 794 | |

(a) Mae amcangyfrifon ONS yn dyrannu statws masnachu busnes i ranbarthau mewn dull ffracsiynol.
(b) Mae dull cyfrannau CThEM yn dyrannu statws masnachu busnes i ranbarthau mewn dull ffracsiynol.
(c) Mae dull rhifau cyfan CThEM yn cyfri pob busnes fel un ymhob rhanbarth lle mae ganddo bresenoldeb.

[21] Mae’r amcangyfrifon o werthiannau yn AMC yn berthnasol i 31,616 o unedau adrodd ac mae’r amcangyfrifon o bryniannau’n berthnasol i 27,830 o unedau adrodd. Gwelwch yr adran samplu yn yr Adroddiad Technegol i gael rhagor o fanylion am gwmpas AMC.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016. Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn hefyd rhoi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon, ynghyd â'r adroddiad technegol a'r ffeiliau data, ar gael ar: https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru-2018

## Y diweddariad nesaf

I gael ei gadarnhau.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.masnach@llyw.cymru

## Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

OGL